Ymchwil gymdeithasol
Social research

Rhif: 63/2014

# Gwerthusiad Annibynnol o Brosiect Creu Cysylltiadau Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA)

## Gwerthusiad Gwaelodlin a Phroses Ddechreuol

# Gwerthusiad Annibynnol o Brosiect 'Creu'r Cysylltiadau' Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

# GWERTHUSIAD GWAELODLIN A PHROSES DDECHREUOL


## Gareth Williams, Old Bell 3 Cyf


Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn farn Llywodraeth Cymru.


I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:
Jackie McDonald,
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddol,
Llywodraeth Cymru,
Parc Cathays,
Caerdydd CF10 3NQ
Ffôn: 029 2080 1193
E-bost: Jackie.McDonald@wales.gsi.gov.uk
http://www.cymru.gov.uk/ymchwil



Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 11 Mehefin 2014
ISBN 978-1-4734-1369-6


© Hawlfraint y Goron 2014

## Tabl Cynnwys

CRYNODEB GWEITHREDOL ........ 2
1. CYFLWYNIAD ........ 7
1.1 Cefndir ........ 7
1.2 Nod y Gwerthusiad a'r Adroddiad yma ........ 8
1.3 Dull ........ 9
1.4 Strwythur yr Adroddiad ........ 11
2. CEFNDIR A CHYD-DESTUN ........ 12
2.1 Cyd-destun Polisi ........ 12
2.2 Y Trydydd Sector yng Nghymru ........ 23
2.3 Prosiect Creu'r Cysylltiadau WCVA ........ 26
3. CANFYDDIADAU ........ 33
3.1 Cyflwyniad ........ 33
3.2 Gwaelodlin: cyswllt blaenorol y sector gyda'r agenda diwygio gwasanaethau cyhoeddus ........ 35
3.3 Rhesymeg y Prosiect ........ 44
3.4 Gweithgareddau ac allbynnau ........ 48
3.5 Canlyniadau ac Effaith ........ 60
3.6 Rheolaeth prosiect ........ 64
4. CASGLIADAU ........ 68

## CRYNODEB GWEITHREDOL

Comisiynwyd Old Bell 3 Cyf. gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) mewn cysylltiad â Llywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad annibynnol o brosiect 'Creu'r Cysylltiadau' WCVA[1].

Mae prosiect Creu'r Cysylltiadau, a sefydlwyd ym Mehefin 2012 ac a oedd yn llawn weithredol erbyn Mawrth 2013, yn darparu cyllid ar gyfer swydd(i) ychwanegol o fewn pob Cyngor Gwirfoddol Sirol yn ardal y rhaglen Cydgyfeirio i ysgogi a defnyddio cyfraniad y trydydd sector i'r gwaith o ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus a gaiff ei hybu gan y Byrddau Gwasanaethau Lleol.

Nod prosiect Creu'r Cysylltiadau yw meithrin gallu hirdymor y trydydd sector i gyfrannu at y broses o ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus ac yn neilltuol i weithredu'r Cynllun Integredig Sengl a ddatblygwyd ar gyfer pob ardal awdurdod lleol. Yn neilltuol, amcanion Creu'r Cysylltiadau yw:

- gwella parodrwydd cyrff trydydd sector i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, yn cynnwys gwasanaethau a gynhyrchir ar y cyd;
- cynyddu nifer y cyrff trydydd sector sy'n barod i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus drwy gonsortia neu gydweithio;
- sicrhau bod y trydydd sector yn fwy gwybodus am Fyrddau Gwasanaethau Lleol a'r cynnydd ar ddiwygio'r sector cyhoeddus yn ei ardal ac yn fwy cyffredinol;
- cynyddu gallu'r trydydd sector i gysylltu'n ystyrlon gyda defnyddwyr gwasanaeth;
- cynyddu gallu'r trydydd sector i ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar ddyluniad a darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus.

Daw'r prosiect i ben ym Mawrth 2015 (er bydd cyllid ar gyfer swyddogion Creu'r Cysylltiadau yn gorffen ar 31 Rhagfyr 2014) a bydd gwerthusiad y

[1] Rhan-ariannir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru fel rhan o brosiect ehangach Datblygu a Chyflawni Blaenoriaethau Byrddau Gwasanaethau Lleol - a ariannir dan Flaenoriaeth 4 Thema 1 Rhaglen Weithredol Cydgyfeirio Cronfa Gymdeithasol Ewrop ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd

prosiect yn cefnogi gwneuthurwyr penderfyniadau wrth benderfynu os a sut mae'r prosiect yn cyflawni'r amcanion a nodwyd, yn ogystal â rhoi adborth a dysgu cyfredol sy'n ei gwneud yn bosibl gwneud gwelliannau parhaus i'r prosiect.

Yr adroddiad hwn yw'r cyntaf o'r hyn y disgwylir fydd yn dri adroddiad yn deillio o'r gwerthusiad; cynhelir gwerthusiad ffurfiannol yn chwe mis cyntaf 2014, gyda gwerthusiad terfynol i'w gynnal erbyn Mawrth 2015.

Mae'r adroddiad yn seiliedig ar raglen waith a gynhaliwyd rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2013 oedd yn cynnwys:

- cyfnod dechreuol, yn arwain at Raglen Waith derfynol a gytunwyd gan y Grŵp Llywio ac yn cynnwys cyfarfod gyda'r tîm sy'n cynnal y gwerthusiad hirdymor o brosiect ehangach Cronfa Gymdeithasol Ewrop ar Fyrddau Gwasanaethau Lleol[2] i rannu sylwadau a dulliau gwaith maes;
- derbyn ac adolygu data monitro o brosiect Creu'r Cysylltiadau, yn ogystal â Chynlluniau Integredig Sengl a chynlluniau gweithredu unigol swyddogion Creu'r Cysylltiadau;
- datblygu a defnyddio arolwg byr ar gyfer rhanddeiliaid allweddol Byrddau Gwasanaethau Lleol yn ardal y rhaglen Cydgyfeirio a hefyd yn Nwyrain Cymru;
- cynnal pedwar cyfweliad wyneb-i-wyneb gyda rhanddeiliaid 'cenedlaethol' a dau grŵp ffocws gyda swyddogion Creu'r Cysylltiadau nad ydynt yn gweithio yn ardaloedd yr astudiaethau achos;
- cynnal adolygiad o gyhoeddiadau a data yn cynnwys dogfennau polisi allweddol, data'n gysylltiedig â'r trydydd sector yng Nghymru a dogfennau'n benodol gysylltiedig â phrosiect Creu'r Cysylltiadau.

[2] Prifysgol Caerdydd, Shared Intelligence a IFF Research Cyf.

Er y gall fod yn rhy fuan dod i unrhyw gasgliadau pendant ar gynnydd prosiect Creu'r Cysylltiadau ar y cam cynnar hwn iawn o'r ymchwil, mae ein gwaith hyd yma yn awgrymu:

- Bod nodau ac amcanion y prosiect yn gydnaws iawn â rhai o themâu cyson polisi Llywodraeth Cymru dros y degawd diwethaf yn nhermau'r angen i gynyddu ymgysylltiad y trydydd sector wrth ddylunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus a chryfhau rôl llais y dinesydd wrth lunio gwasanaethau cyhoeddus;
- Bod cefnogaeth sylweddol i gysyniad cyffredinol y prosiect, er bod llawer o'r rhai sy'n gysylltiedig yn credu ei fod yn or-uchelgeisiol o gofio am faint y prosiect a'r amserlen fer ar gyfer ei weithredu;
- Ymddengys bod yr oedi rhwng creu'r prosiect a'i weithredu wedi cael effaith negyddol, gyda chyn ansefydlogrwydd a newid o fewn amgylchedd gweithio partneriaeth ar lefel leol yn ei gwneud yn anos i swyddogion Creu Cysylltiadau sefydlu eu hunain;
- Bod y llinell sylfaen ar gyfer y prosiect yn wahanol iawn o un ardal (ac i ryw raddau o un gwasanaeth cyhoeddus) i'r llall. Er yr ymddengys y bu lefel resymol o ymgysylltiad ffurfiol gan y trydydd sector mewn trafodaethau am wasanaethau lleol yn y rhan fwyaf o ardaloedd, barn gyffredinol y sawl a gyfwelwyd oedd bod fod y profiad ar lawr gwlad cyn sefydlu'r prosiect yn gymysg iawn. Mae'r data cyfyngedig gan WCVA yn awgrymu fod lefel yr incwm a enillwyd gan y trydydd sector o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus mewn gwirionedd yn gyfyngedig iawn, er ei fod yn ganfyddiad cyffredinol fod y sector wedi'i rannu'n gynyddol rhwng sefydliadau mwy, yn neilltuol mewn gwasanaethau plant ac iechyd a gofal cymdeithasol, sydd wedi paratoi'n dda i gystadlu a sefydliadau llai na caiff eu cyfraniad gymaint o gydnabyddiaeth ac sy'n llawer llai galluog i symud o ddibyniaeth ar grantiau i amgylchedd mwy cystadleuol. Mae gwerthusiadau diweddar eraill yn awgrymu na chaiff ymgysylltu â dinasyddion a gweithio gyda'r trydydd sector, er yn themâu pwysig mewn gweithio partneriaeth leol, eu hystyried fel y blaenoriaethau uchaf ar gyfer llywodraeth leol yn neilltuol;

- Yn ymarferol, caiff swyddogion Creu'r Cysylltiadau eu defnyddio mewn ffyrdd gwahanol iawn mewn gwahanol ardaloedd, gyda phenderfyniadau am eu gweithgareddau dydd-i-ddydd yn seiliedig i raddau helaeth ar y cyd-destun y gweithredant ynddo;
- Er ei bod yn anodd cyffredinoli, ymddengys fod ffocws cryf ar gymryd rhan mewn cyfarfodydd a lledaenu gwybodaeth am y Byrddau Gwasanaethau Lleol a gweithio partneriaeth arall, gyda llai o ffocws ar fewnbwn ar ddylunio gwasanaethau (gellid dadlau fod hynny oherwydd nad yw llawer o Fyrddau Gwasanaethau Lleol hyd yma'n delio gyda materion mor ymarferol). Mewn rhai achosion mae gweithio i feithrin gallu cyrff trydydd sector i ennill incwm o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn ffocws mawr i'r rôl, ond mewn eraill, mae gan y Cynghorau Gwirfoddol Sirol adnoddau eraill ar gyfer darparu'r math yma o weithgaredd ar y raddfa y credant sy'n addas. Mae gwaith ar lais y dinesydd hefyd yn amrywio'n sylweddol, er yr ymddengys fod cefnogi timau Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar eu gwaith ymgysylltu yn swyddogaeth allweddol i rai swyddogion;
- Bod tensiwn cynhenid yn nyluniad y prosiect rhwng y Cynghorau Gwirfoddol Sirol fel cyflogwr a rheolwr llinell a WCVA fel rheolwr prosiect ac, yn ymarferol, mae'r ymgais i sicrhau fod swyddogion Creu'r Cysylltiadau yn adlewyrchu fframwaith Atebolrwydd yn seiliedig ar Ganlyniadau wedi gwrthdaro gyda dymuniad dealladwy Cynghorau Gwirfoddol Sirol i ddefnyddio adnodd ychwanegol mewn ffordd sy'n ategu rolau blaenorol aelodau eraill eu staff;
- Bu'r gwaith i ddatblygu Cynlluniau Gweithredu Unigol ac i gytuno ar gerdyn adrodd yn gymharol feichus, ond er hyn, nid yw'n ymddangos fod y trefniadau presennol yn gweithio'n neilltuol o dda;
- Soniodd swyddogion Creu'r Cysylltiadau a chyfweleion eraill am amrywiaeth o ganlyniadau cadarnhaol hyd yma, ac mae'r nifer fechan o ymatebwyr arolwg yn credu fod y swyddogion yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gynyddu amlygrwydd a rôl y trydydd sector mewn Byrddau Gwasanaethau Lleol a gwaith partneriaeth ac wrth gynllunio a darparu gwasanaethau lleol;

- Bod y rhan fwyaf o'r rhai a gyfwelwyd yn credu y caiff targedau ffurfiol y prosiect eu cyflawni (gydag eithriad posibl secondiadau) ond mae barn gymysg am i ba raddau y bydd y prosiect yn sicrhau'r canlyniadau a ragwelwyd yn y fframwaith Atebolrwydd Seiliedig ar Ganlyniadau, yn neilltuol o fewn cyfnod y prosiect.

# 1. CYFLWYNIAD

## 1.1 Cefndir

Comisiynwyd Old Bell 3 Cyf. gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) mewn cysylltiad â Llywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad annibynnol o brosiect 'Creu Cysylltiadau' WCVA[3].

Wedi'i sefydlu ym Mehefin 2012 ac yn llawn weithredol erbyn Mawrth 2013, mae prosiect Creu'r Cysylltiadau yn rhoi cyllid ar gyfer swydd(i) ychwanegol o fewn pob Cyngor Gwirfoddol Sirol yn ardal y rhaglen Cydgyfeirio i ysgogi a defnyddio cyfraniad y trydydd sector i'r gwaith ar ddiwygio gwasanaethau lleol a gaiff ei hybu gan y Byrddau Gwasanaethau Lleol[4].

Gyda'i wreiddiau fel cynnig prosiect ar wahân i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) gan WCVA a Chynghorau Gwirfoddol Sirol, dyfarnwyd cyllid o tua £2.7 miliwn i'r prosiect o Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF)[5] fel rhan o brosiect ehangach (a gymeradwywyd yn flaenorol) gan Lywodraeth Cymru - Prosiect Datblygu a Chyflenwi Blaenoriaethau Byrddau Gwasanaethau Lleol - a ariannwyd dan Flaenoriaeth 4 Thema 1 Rhaglen Weithredol Cydgyfeirio'r ESF ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd [6].

Mae'n nod gan brosiect Creu'r Cysylltiadau i ategu'r prosiect ehangach drwy feithrin gallu hirdymor y trydydd sector i gyfrannu at y broses o ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus ac yn neilltuol weithredu'r Cynllun Integredig Sengl a ddatblygwyd ar gyfer pob ardal awdurdod lleol. Yn neilltuol, amcanion Creu'r Cysylltiadau yw:

[3] Rhan-ariannir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru
[4] Mae'r prosiect yn darparu cyllid ar gyfer un swyddog datblygu prosiect ym mhob un o'r 13 Cyngor Gwirfoddol Sirol a dau yn GAVO (Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent), sy'n gweithredu ym Mlaenau Gwent a Chaerffili, yn ogystal ag adnodd canolog rheoli prosiect (1.9 cyfwerth ag amser llawn) yn WCVA ei hunan.
[5] Mae cyfanswm cyllid ar gyfer y prosiect yn cynnwys £2.7 miliwn o Gronfa Gymdeithasol Ewrop, £453,352 o arian cyfatebol gan Gynghorau Gwirfoddol Sirol a £45,788 o arian cyfatebol gan WCVA.
[6] Ym mhob rhan o'r adroddiad hwn defnyddiwn 'y prosiect' i gyfeirio at elfen WCVA o'r prosiect ehangach, a'r 'prosiect ehangach' i gyfeirio at Brosiect Datblygu a Chyflawni Blaenoriaethau Byrddau Gwasanaethau Lleol yn ei gyfanrwydd.

- cynyddu parodrwydd cyrff trydydd sector i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, yn cynnwys gwasanaethau a gynhyrchir ar y cyd;
- cynyddu nifer y cyrff trydydd sector sy'n barod i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus drwy gonsortia neu gydweithio;
- sicrhau bod y trydydd sector yn fwy gwybodus am y Bwrdd Gwasanaethau Lleol a chynnydd diwygio sector cyhoeddus yn ei ardal ac yn fwy cyffredinol;
- cynyddu gallu'r trydydd sector i gysylltu'n ystyrlon â defnyddwyr gwasanaeth; a
- chynyddu gallu'r trydydd sector i ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar ddyluniad a darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus[7].

Daw'r prosiect i ben ym Mawrth 2015 (er y bydd cyllid ar gyfer swyddogion Creu'r Cysylltiadau yn gorffen ar 31 Rhagfyr 2014) a bydd gwerthusiad y prosiect yn cefnogi gwneuthurwyr penderfyniadau wrth benderfynu os yw'r prosiect yn cyflawni'r amcanion a nodwyd iddo a sut y mae'n gwneud hynny, yn ogystal â rhoi adborth a dysgu parhaus sy'n galluogi gwneud gwelliannau parhaus i'r prosiect.

### 1.2 Nod y Gwerthusiad a'r Adroddiad yma

Nodau'r gwerthusiad yw:

1. Asesu sut yr effeithiodd Creu'r Cysylltiadau ar gynnwys y trydydd sector wrth ddarparu, datblygu ac ailddylunio gwasanaethau cyhoeddus;
2. Asesu sut yr effeithiodd Creu'r Cysylltiadau ar ddylunio, cynllunio a datblygu gwasanaethau cyhoeddus lleol ac os yw hyn wedi sicrhau gwelliant.

Amcanion manwl y gwerthusiad yw:

- edrych sut mae rôl y trydydd sector wrth ddarparu gwasanaethau lleol yn newid (e.e. p'un ai yw cwmpas a maint darpariaeth y trydydd sector yn newid);

[7] O Grynodeb y Prosiect fel y'i cyflwynwyd i WEFO. Gweler hefyd Adran 2.

- ymchwilio sut y newidiodd cyflenwad a'r galw am wasanaethau trydydd sector a sut y bydd hyn yn effeithio ar ei gynaliadwyedd;
- asesu effeithiau'r newidiadau hyn ar gynllunio gweithlu a sgiliau yn y trydydd sector;
- ymchwilio os bydd y berthynas ac adeiladu rhwydwaith a gweithgareddau eraill swyddogion Creu'r Cysylltiadau yn gynaliadwy tu hwnt i gyfnod y Prosiect yma;
- ymchwilio os a sut mae dylanwad y trydydd sector ar bartneriaethau allweddol a'u gweithgareddau yn gwella drwy weithredu Creu'r Cysylltiadau;
- asesu os yw cynllunio gwasanaethau cyhoeddus (yn neilltuol o amgylch blaenoriaethau Cynllun Integredig Sengl) yn cael ei wella drwy well integreiddiad ar y trydydd sector;
- archwilio sut mae cysylltu â dinasyddion wedi bod yn nodwedd wrth sefydlu blaenoriaethau Byrddau Gwasanaeth Lleol a Chynlluniau Integredig Sengl a chynllunio a darparu gwasanaethau;
- asesu os yw Creu'r Cysylltiadau wedi sicrhau gwelliannau yn y cyswllt hwn.

Yr adroddiad hwn yw'r cyntaf o'r hyn y disgwylir fydd yn dri adroddiad yn deillio o'r gwerthusiad: cynhelir gwerthusiad ffurfiannol yn chwe mis cyntaf 2014, gyda gwerthusiad terfynol erbyn Mawrth 2015.

Er y bwriedir iddo fod yn bennaf yn adolygiad o'r gwaelodlin, mewn gwirionedd roedd y prosiect hwn yn mynd rhagddo ers cryn amser cyn y cynhaliwyd y  cam dechreuol hwn o'r gwaith. Mae felly'n ymgais i sefydlu gwaelodlin yn ôl-weithredol a hefyd yn werthusiad o'r broses ddechreuol, er ar sail tystiolaeth gyfyngedig.

**1.3 Dull**

Mae'r adroddiad yma'n seiliedig ar raglen waith a gynhaliwyd rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2013 oedd yn cynnwys:

- cyfarfod dechreuol gyda Grŵp Llywio'r Gwerthusiad i gytuno ar y rhaglen waith;

- cytuno gyda'r Grŵp Llywio ar restr ddechreuol o bum ardal astudiaeth achos, gan roi ystyriaeth i wahaniaethau cyd-destun yn y gwahanol Gynghorau Gwirfoddol Sirol a dulliau gweithredu amrywiol swyddogion Creu'r Cysylltiadau;
- cyfarfod dechreuol gyda swyddogion Creu'r Cysylltiadau ar 9 Hydref 2013;
- cyfarfod gyda'r tîm sy'n cynnal y gwerthusiad hirdymor o'r prosiect ehangach[8] i rannu sylwadau a dulliau gwaith maes;
- derbyn ac adolygu data monitro o brosiect Creu'r Cysylltiadau, yn ogystal â'r Cynlluniau Integredig Sengl a chynlluniau gweithredu swyddogion unigol Creu'r Cysylltiadau;
- datblygu fframwaith cwestiynu ar gyfer yr holl brosiect;
- datblygu a defnyddio arolwg byr wedi'i gyfeirio at randdeiliaid allweddol Byrddau Gwasanaethau Lleol yn ardal y rhaglen Cydgyfeirio a hefyd yn Nwyrain Cymru. Y bwriad gwreiddiol oedd cynnal hyn fel arolwg ar y we ond oherwydd pryderon am y gyfradd ymatebol debygol, defnyddiwyd dull arolwg ffôn. Fodd bynnag, roedd y cyfraddau ymateb yn dal i fod yn isel, gyda dim ond 27 o gyfweliadau yn cael eu cwblhau allan o sampl o 161 cyswllt (17%);
- cynnal cyfweliadau rhanddeiliaid 'cenedlaethol' ar sail wyneb i wyneb gyda:
    - Tricia Jones, Rheolwr y Prosiect (a ymddiswyddodd ar 31 Hydref 2013;
    - Constance Adams, WCVA;
    - Amanda Williams, Cyfranogaeth Cymru;
    - Ceri Thomas, rheolwr y prosiect ehangach yn Llywodraeth Cymru[9];
- cynnal dau grŵp ffocws (un yn Ne Cymru ac un yng Ngogledd Cymru) gyda swyddogion Creu'r Cysylltiadau heb fod yn gweithio yn ardaloedd yr astudiaethau achos: bu cyfanswm o naw swyddog yn bresennol[10];

---

[8] Prifysgol Caerdydd, Shared Intelligence ac IFF Research Cyf.

[9] Roeddem hefyd wedi gobeithio cyfweld Eleanor Marks o Is-adran Cymunedau Llywodraeth Cymru, ond ni fu hyn yn bosibl yn yr amserlen.

[10] Roedd dau ohonynt yn swyddogion rhan-amser o'r un Cyngor Gwirfoddol Sirol. Roedd un swydd yn wag adeg cynnal y gwaith maes ac un swydd ar absenoldeb salwch hirdymor.

- cynnal pecyn o waith maes yn gysylltiedig â phob un o'r meini prawf a ddetholwyd oedd yn cynnwys:
    - dadansoddiad o wybodaeth gefndir allweddol yn cynnwys y Cynllun Integredig Sengl, cynlluniau gweithredu swyddogion unigol Creu'r Cysylltiadau a data Cynghorau Gwirfoddol Sirol;
    - cyfweliadau wyneb-i-wyneb neu dros y ffôn gyda rhanddeiliaid lleol allweddol (cynhaliwyd cyfanswm o 18 cyfweliad ar wahân);
    - drafftio adroddiad byr ar astudiaethau achos.
- cynnal adolygiad ar lenyddiaeth a data yn cynnwys y dogfennau polisi allweddol, data'n gysylltiedig â'r trydydd sector yng Nghymru a dogfennau'n gysylltiedig yn benodol â phrosiect Creu'r Cysylltiadau;
- llunio'r adroddiad yma.

### 1.4 Strwythur yr Adroddiad

Yng ngweddill yr adroddiad, rydym yn gyntaf yn nodi cefndir y prosiect a'r cyd-destun y mae'n gweithredu ynddo, sy'n cynnwys model rhesymeg prosiect sy'n crynhoi ein dealltwriaeth o'r berthynas rhwng gweithgareddau, allbynnau, canlyniadau ac effeithiau tymor hwy'r prosiect **(Adran 2).** Rydym wedyn yn adrodd ar ein canfyddiadau o'r cam dechreuol hwn o'r gwaith maes **(Adran 3)** cyn **(Adran 4)** rhoi set fer o gasgliadau.

# 2. CEFNDIR A CHYD-DESTUN

## 2.1 Cyd-destun Polisi

*2.1.1 Polisi Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus*

Yn y cyfnod o fwy na deng mlynedd ers cyhoeddi adroddiad gwreiddiol 'Creu'r Cysylltiadau' a ysgrifennwyd gan Syr Jeremy Beecham, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu ymagwedd neilltuol ac ystyrlon at ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn seiliedig ar syniad 'llais, yn hytrach na dewis', mewn geiriau eraill ceisio defnyddio profiad, barn a dewisiadau defnyddwyr gwasanaeth i helpu llunio gwasanaethau cyhoeddus sydd wedi'u teilwra yn fwy ac yn ymateb yn well i anghenion defnyddwyr yn hytrach na dull yn canolbwyntio mwy ar y farchnad. Seiliwyd yr ymagwedd yma ar yr angen am gydweithredu yn hytrach na chystadleuaeth o fewn y sector cyhoeddus er mwyn gwella'r integreiddiad rhwng gwahanol wasanaethau a darparu gwasanaethau sydd â'u ffocws ar y dinesydd.

Roedd creu Byrddau Gwasanaethau Lleol o fewn pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru yn rhan hollbwysig o'r dull hwn, proses a roddwyd ar waith gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (bryd hynny) yn 'Creu'r Cysylltiadau: Cyflawni ar Draws Ffiniau' 2006. Bwriedid i Fyrddau Gwasanaeth Lleol:
*'tynnu ynghyd y cyrff allweddol sy'n cyfrannu at ddarparu gwasanaeth lleol, y rhai sydd wedi'u datganoli a heb eu datganoli. Eu tasg fydd gwella'r ddarpariaeth gwasanaeth a chymryd camau ar y cyd lle mae angen hynny mewn meysydd fel iechyd a gofal cymdeithasol, gwasanaethau i blant sy'n agored i niwed a gwasanaethau eraill lle mae canlyniadau da yn dibynnu ar gydweithredu'*[11].

Byddai'r Byrddau Gwasanaeth Lleol yn *'datblygu o Bartneriaethau cyfredol y Strategaeth Gymunedol ac yn adeiladu ar eu profiad gwerthfawr hwy, gan ychwanegu at hynny y nod o gydweithio ar ddarparu gwasanaeth'.*[12].

[11] 'Creu'r Cysylltiadau: Cyflawni ar draws Ffiniau', Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006 t.3
[12] Ibid., t. 20

Bryd hynny, fodd bynnag, y bwriad oedd i'r Byrddau Gwasanaethau Lleol fod yn ddull trosfwaol o gydlynu, gan ddod ynghyd â phrif ddarparwyr gwasanaethau lleol (Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd Lleol, yr Heddlu, y Gwasanaethau Tân ac Achub a Llywodraeth Cymru ei hunan) ond yn ategu yn hytrach na disodli partneriaethau thematig oedd yn bodoli eisoes:

*'Nid disodli'r partneriaethau allweddol sy'n bodoli eisoes fel y rhai ar gyfer Diogelwch Cymunedol, Iechyd a Lles a Phlant a Phobl Ifanc yw bwriad Byrddau Gwasanaeth Lleol. Yn hytrach, hwy fydd y canolbwynt y gall y partneriaethau eraill hyn weithredu o'u cwmpas*[13]*.*

Fodd bynnag, yng nghyd-destun pwysau ar gyllid cyhoeddus a threfniadau lluosog ar gyfer cydweithredu ar wahanol lefelau ac ar draws nifer o bartneriaid, yn cynnwys y partneriaethau hynny'n gweithio ar lefel y gymuned drwy raglen Cymunedau yn Gyntaf a datblygiad Partneriaethau Rhanbarthol gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru[14], roedd Llywodraeth Cymru wedi dod yn gynyddol awyddus i sicrhau peth symleiddio ar drefniadau sefydliadol ar y lefel leol.

Felly, addawodd 'Rhaglen Lywodraethu' y weinyddiaeth Lafur newydd yn 2011 *'symleiddio ein strwythurau partneriaeth statudol, gan gael gwared ar yr angen am gymaint o wahanol gynlluniau, asesiadau anghenion a phwyllgorau*[15] a *'cyhoeddi canllawiau statudol a fydd yn nodi'n glir yr hyn y mae'r Gweinidogion yn disgwyl i awdurdodau lleol a phartneriaid yn y gwasanaethau cyhoeddus ei wneud i gynyddu cydweithio effeithiol'*[16].

Cafodd yr addewidion hyn ei dilyn gyda chyhoeddi 'Cydamcanu, Cydymdrechu: Canllawiau ar Integreiddio Partneriaethau a Chynlluniau' (yn gyntaf yn Ionawr 2012 fel drafft ddogfen ymgynghori ac wedyn fel canllawiau statudol terfynol ym Mehefin 2012).

[13] Ibid., p. 21
[14] Adolygiad Llenyddiaeth ar gyfer Prosiect Datblygu a Chyflawni Blaenoriaethau Byrddau Gwasanaethau Lleol-ESF, Meza et al, Ysgol Fusnes Caerdydd, 2013, t.4
[15] Rhaglen Lywodraethu, Llywodraeth Cymru, 2011 t. 8
[16] Ibid., t.9

Er yn mynegi boddhad cyffredinol gyda datblygu gweithio partneriaethau rhwng y rhai'n ymwneud â datblygu a darparu gwasanaethau cyhoeddus, nododd y Canllawiau:

*'wrth ddatblygu mae'r partneriaethau lleol hyn wedi arwain at ormod o gymhlethdod a dyblygu, gan gynnwys partneriaethau ail a thrydedd haen, gweithgorau a grwpiau gorchwyl a gorffen'*[17].

Daeth felly i'r casgliad:

*'Mae angen symleiddio strwythurau partneriaethau lleol o dan arweiniad clir y Bwrdd Gwasanaethau Lleol i'w gwneud yn addas at y diben, ailbennu atebolrwydd ac ailgyfeirio staff ac adnoddau i ategu gwaith cynllunio a darparu gwasanaethau integredig*[18].

Yng nghanol y broses yma o symleiddio oedd y gofyniad i bob Bwrdd Gwasanaethau Lleol i ddatblygu Cynllun Integredig Sengl erbyn Ebrill 2014 a fyddai'n *"disodli o leiaf bedwar o strategaethau statudol presennol (y Strategaeth Gymunedol, y Cynllun Plant a Phobl Ifanc, y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles a Chynllun y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ...) Bydd hyn yn ffordd o leihau cymhlethdod ac achosion o ddyblygu, ac yn rhyddhau adnoddau'.*[19]

Seilid Cynlluniau Integredig Sengl ar '*dadansoddiad strategol o anghenion i benderfynu ar y blaenoriaethau ar gyfer gweithredu lleol'*[20]. Yn hanfodol, ystyrid fod ganddynt gysylltiad integrol i'r angen i ailgyfeirio darpariaeth gwasanaeth i ffocws llawer cliriach ar ymyriadau, cynnar, nid yn lleiaf fel ffordd o ymateb i bwysau ariannol cynyddol:

'*Ym marn Llywodraeth Cymru, y sylfaen ar gyfer symud ymlaen yn gynaliadwy yw cynllun integredig sengl ar gyfer yr ardal sy'n seiliedig ar dystiolaeth gadarn ac yn adlewyrchu anghenion y boblogaeth leol yn glir. Mae'n credu bod yn rhaid i lywodraeth leol a'i phartneriaid ganolbwyntio eu hymdrechion yn*

[17] Cydamcanu, Cydymdrechu: Canllawiau ar Integreiddio Partneriaethau a Chynlluniau, Llywodraeth Cymru, 2012, t.3
[18] Ibid., t.4
[19] Ibid.
[20] Ibid., t. 9

*gryf ar ymyrraeth gynnar a mesurau ataliol, er mwyn torri cylchoedd o ddibyniaeth ac atal canlyniadau gwael rhag parhau o'r naill genhedlaeth i'r llall[21]'.*

Disgwylid y byddai cysylltu'n well gyda defnyddwyr gwasanaeth a'r boblogaeth yn gyffredinol yn rhan hollbwysig o'r dadansoddiad anghenion, gyda'r farn fod hwn yn faes lle bu Byrddau Gwasanaethau Lleol yn gymharol wan:

*'Mae dull Cymru o ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus wedi'i seilio ar broses lle mae llais y dinesydd yn sbardun i wella gwasanaethau. Dylai'r cynllun integredig unigol gynnwys strategaeth ymgysylltu yn nodi sut y mae partneriaid yn bwriadu ymgysylltu â phobl a chymunedau, gan ddisgrifio'n glir iawn sut y bydd hyn yn helpu i wella gwasanaethau a phrofiad unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaethau yn y ffordd fwyaf effeithiol.... Prin yw'r dystiolaeth ar hyn o bryd o ddefnydd helaeth ymgysylltu o'r math hwn sy'n canolbwyntio ar y dinesydd er mwyn delio â methiant a chreu gwasanaethau o'r radd flaenaf, er bod enghreifftiau penodol o arfer rhagorol'[22].*

Mae'r canllawiau'n ei gwneud yn glir y dylai Byrddau Gwasanaethau Lleol barhau i fod yn sbardun newid yn nhermau diwygio a gwella gwasanaethau cyhoeddus gan sôn am bwysigrwydd cysylltiad clir gyda darparu a chomisiynu gwasanaethau cyhoeddus:

*'Dylai'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol sicrhau bod pwyslais strategol cryf ar y gwaith o gomisiynu a darparu gwasanaethau, a bod cysylltiad clir rhwng hyn a thystiolaeth o angen'[23].*

Pwysleisiodd y canllawiau hefyd, er bod gan awdurdodau lleol rôl allweddol *'mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn bartneriaeth o aelodau cyfartal ac ni ddylai'r awdurdod lleol dra-arglwyddiaethu arno'[24].* Dywedodd *'dylai aelodaeth graidd y Bwrdd Gwasanaethau Lleol gynnwys arweinwyr (gwleidyddol a/neu weithredol) yr awdurdod lleol, yr heddlu, y gwasanaeth*

---

[21] Ibid., t. 3
[22] Ibid., t. 17- 18
[23] Ibid., t.11
[24] Ibid., t. 8

*iechyd, y cyngor gwirfoddol sirol ac uwch gynrychiolydd o Lywodraeth Cymru'*[25]*.*

Gan adeiladu ar y canllawiau hyn, mae Llywodraeth Cymru yn awr yn ystyried p'un ai i roi Cynlluniau Integredig Sengl ar sail statudol drwy fil arfaethedig Cenedlaethau'r Dyfodol (gynt y bil Datblygu Cynaliadwy)[26].

*2.1.2 Rôl y Trydydd Sector mewn Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus*

Gan droi at rôl benodol y trydydd sector yn nhermau darparu gwasanaethau cyhoeddus, cydnabuwyd yn gynnar wrth ddatblygu'r agenda fod gan y trydydd sector rôl allweddol wrth alluogi 'llais' defnyddwyr gwasanaeth i gael ei glywed wrth lunio gwasanaethau cyhoeddus. Felly yn Creu'r Cysylltiadau: Cyflawni ar draws Ffiniau, tanlinellodd Llywodraeth Cymru ei bod yn bwysig fod y sector yn *'datblygu (fel sy'n briodol ar gyfer pob sefydliad) rôl fwy fel eiriolwyr dinasyddion, darparwyr arbenigedd datblygu polisi a gwasanaeth ac fel partneriaid gweithredu drwy strategaeth newydd o dan Gynllun y Sector Gwirfoddol*[27]*.*

Fodd bynnag, er i ddechrau efallai braidd yn betrus am rôl bosibl y sector wrth ddarparu - yn hytrach na llunio - gwasanaethau cyhoeddus, yn y cyfnod ers dyfodiad yr argyfwng ariannol yn 2008 a chyflwyniad dilynol toriadau llym mewn gwariant cyhoeddus gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, mae diddordeb Llywodraeth Cymru wedi cynyddu yn y potensial i'r trydydd sector gyfrannu hyd yn oed yn fwy helaeth at ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Felly, nododd 'Y Trydydd Dimensiwn' (2008) dri phrif gymhelliant dros i Lywodraeth Cymru gefnogi'r sector:

- *'Cefnogi twf a datblygiad pellach gallu'r sector i gryfhau cymunedau o le a diddordeb.*
- *Ffrwyno gwybodaeth ac arbenigedd y sector i helpu i ddylunio gwella polisïau a gwasanaethau cyhoeddus.*

[25] Ibid., p. 9
[26] Bil Datblygu Cynaliadwy - Papur Gwyn, Llywodraeth Cymru 2012, t. 11
[27] Tudalen 9

- *Annog a helpu'r sector i gyfrannu at bersonoli a gwell hygyrchedd i wasanaethau cyhoeddus o ansawdd da sy'n canolbwyntio ar y dinesydd'[28].*

Arweiniodd y cymhellion hyn at bump 'maes gweithredu', gyda thri ohonynt '*gwella cyfleoedd i ddinasyddion cael eu clywed', 'cefnogi a chyflymu menter gymdeithasol'* a '*gwneud gwasanaethau cyhoeddus yn fwy hygyrch a chanolbwyntio ar y dinesydd')* yn amlwg yn cyfeirio at rôl y trydydd sector wrth gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus[29].

Nododd y 'Trydydd Dimensiwn' *'y rôl arloesol a thrawsnewidiol y gall y sector ei chwarae wrth wneud i wasanaethau cyhoeddus gyrraedd mwy o bobl a dod yn fwy sensitif i'w anghenion''[30]* a phwysleisio bod gan *'fudiadau trydydd sector ran fawr i'w chwarae wrth hwyluso mwy o ymgysylltiad gan ddinasyddion ac wrth helpu i sicrhau bod lleisiau a phrofiadau pobl yn cael eu clywed a'u hystyried yn y ffordd gywir[31]*. Yn y cyd-destun yma, pwysleisiodd hefyd ddisgwyliad y Llywodraeth y byddai'r sector yn *'cyfranogi'n llawn mewn Byrddau Gwasanaeth Lleol, Strategaethau Cymunedol a Grwpiau Cynlluniau Gofodol'* a bod gan y sector hefyd rôl werthfawr wrth graffu ar wasanaethau cyhoeddus i helpu *'cynhyrchu'r her a gefnogir gan Beecham fel un o yrwyr allweddol gwella gwasanaethau*'[32].

Yn nhermau darparu gwasanaeth, nododd 'Y Trydydd Dimensiwn' mai un o amcanion allweddol strategaeth menter gymdeithasol Llywodraeth Cymru oedd *'cynyddu gweithgareddau menter, gwella gwasanaethau cyhoeddus'[33]* a thanlinellodd bwysigrwydd, yng nghyd-destun mwy o bersonoli ar wasanaethau, ddatblygu 'economi cymysg' o ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus, er yn cydnabod y gallai hyn gymryd amser ac ymdrech:
*'Efallai felly bydd angen i Fyrddau Gwasanaeth Lleol weithio cam wrth gam tuag at 'economi gymysg' o ddarparu gwasanaethau drwy helpu i adeiladu*

[28] Tudalen 18
[29] Ibid.,, t. 20
[30] Ibid., t.6
[31] Ibid,., t.28
[32] Ibid.
[33] Ibid., t. 30

*gallu'r trydydd sector tra'n sicrhau parhad gwasanaethau statudol drwy'r sector cyhoeddus'*[34].

Fel rhan o hyn, nododd y ddogfen bwysigrwydd annog cydweithio rhwng cyrff trydydd sector er mwyn cynyddu eu gallu i dendro ar gyfer a darparu gwasanaethau:
*'Gallai cydweithio o'r fath olygu unrhyw beth o uniad llawn, i lunio consortia (e.e. i dendro am gontractau mawr) i rannu gwasanaethau swyddfa gefn*[35].

Er bod y 'Trydydd Dimensiwn' tua phum mlynedd oed erbyn hyn, mae dogfennau polisi mwy diweddar Llywodraeth Cymru wedi parhau i danlinellu'r cyfraniad y gall ac y dylai'r sector ei wneud i ymgysylltu â dinasyddion a chynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus.

Felly, atebodd dogfen ymgynghori ddiweddar Llywodraeth Cymru 'Parhad a Newid - Adnewyddu'r Berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector yng Nghymru' berthnasedd parhaus y tri cymhelliant nodir uchod, a chynnig chwe rôl greiddiol y Seilwaith Trydydd Sector (term sy'n cynnwys WCVA, y Cynghorau Gwirfoddol Sirol a'r Canolfannau Gwirfoddoli Lleol) yn y dyfodol:

- *'Galluogi sefydliadau eraill y Trydydd Sector i dyfu a datblygu.*
- *Cynorthwyo gwirfoddolwyr unigol a hybu cydweithio gwirfoddol.*
- *Hyrwyddo llywodraethu da ym mhob rhan o'r Trydydd Sector.*
- ***Helpu i ddylunio a chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus.***
- ***Siarad ar ran y sector ehangach a'i gynrychioli***
- ***Rhannu arloesedd ac arferion da***[36]***.*** [ychwanegwyd pwyslais]

Aeth y ddogfen ymlaen i bwysleisio:
*'Mae Llywodraeth Cymru yn credu ei bod yn hollbwysig bod gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru'n gwella'n barhaus. Mae'r Trydydd Sector yn bartner pwysig yn y gwaith hwn, gan ei fod yn gallu cyfrannu at ddylunio a chyflenwi*

[34] Ibid, tt.34-5
[35] Ibid., p.47
[36] 'Parhad a Newid: Adnewyddu'r Berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, 2013, t.12

*amrywiaeth eang o wasanaethau mewn cymunedau lleol ac yn fwy eang ... … Ar lefel fwy sylfaenol, mae awydd i gydweithio â'r Trydydd Sector, a defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr a chymunedau, i bennu a gweithredu modelau newydd i gyflenwi gwasanaethau. O ganlyniad i newidiadau demograffig, y cynnydd yn anghenion a disgwyliadau unigolion, a'r pwysau ar arian cyhoeddus, bydd angen rhoi mwy o bwyslais ar atal ac ymyrryd yn gynnar, ac ar gymorth a gwasanaethau cymunedol* [37].

Ystyriwyd bod cyfrannu at yr agenda yma yn swyddogaeth allweddol i seilwaith y Trydydd Sector: '*Mae sefydliadau seilwaith mewn lle da i alluogi sefydliadau'r Trydydd Sector i gyfrannu at yr agenda hwn. Mae hyn yn arbennig o wir am WCVA ar lefel genedlaethol a Chynghorau Gwirfoddol Sirol ar lefel y rhanbarthau a'r awdurdodau lleol. Unwaith eto, mae'n hanfodol mai rôl galluogi fydd ganddynt sy'n sicrhau bod holl adnoddau'r sector yn cael eu defnyddio i'r graddau mwyaf posibl fel bod sefydliadau cymunedol o bob maint a mentrau cymdeithasol yn gallu cyfrannu'n llawn*[38].

Ar yr un pryd, nododd y ddogfen ymgynghori fod adolygiad o Gytundeb Partneriaeth y Trydydd Sector wedi awgrymu fod y farn yn gymysg am effeithlonrwydd Cynghorau Gwirfoddol Sirol a'u bod yn amrywio'n fawr o ran strwythur, maint a gallu[39].

Yn wir, fe wnaeth yr adolygiad yma, yn seiliedig ar ddadansoddiad o farn rhanddeiliaid o fewn a'r tu allan i'r trydydd sector, hefyd danlinellu'r ffaith nad dim ond yn nhermau agenda polisi Llywodraeth Cymru y bu mewnbwn y trydydd sector i ddarparu a diwygio gwasanaethau cyhoeddus yn cynyddu mewn pwysigrwydd. Nododd yr adroddiad fod yr amcan o:
*'sefydlu a chynnal cysylltiadau ffurfiol rhwng y sector gwirfoddol, yr awdurdod lleol, y GIG a chyrff eraill ... gwelwyd bod hyn yn rôl gynyddol bwysig i'r cynghorau gwirfoddol sirol, yn enwedig o ystyried y newidiadau a gafwyd yn y blynyddoedd diwethaf a'r ddibyniaeth gynyddol ar y trydydd sector i gyflenwi*

---

[37] Ibid., t. 26
[38] Ibid., t. 15
[39] Ibid., t.13

*gwasanaethau allweddol i'r cyhoedd ... Er bod hyn yn cael ei weld yn rôl hanfodol i'r cynghorau gwirfoddol sirol, nododd rhai rhanddeiliaid fod hyn yn rhoi pwysau ar eu hadnoddau a bod cyfyngiadau ar yr hyn y gallant ei gyflawni a bod angen cydnabod hyn* [40].

*2.1.3 Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus a Gweithio Rhanbarthol*

Er mewn llawer ffordd fod y degawd diwethaf wedi gweld parhad sylweddol yn nhermau agenda polisi diwygio'r sector cyhoeddus - gyda phwyslais cryf ar weithio partneriaeth lleol gyda ffocws ar y Byrddau Gwasanaethau Lleol a rhan hollbwysig y trydydd sector yn nhermau defnyddio 'barn y dinesydd', dylanwadu ar ddyluniad gwasanaeth cyhoeddus a chyflenwi gwasanaethau cyhoeddus fel rhan o 'economi cymysg' o ddarpariaeth - mae'r ffocws cynyddol ar weithio rhanbarthol yn nhermau darparu gwasanaethau cyhoeddus yn ffactor sy'n cymhlethu pethau.

Hyd yn oed yn 2006, cydnabuwyd fod angen comisiynu rhai gwasanaethau ar lefel ranbarthol neu genedlaethol, gan roi blaenoriaeth ar:

***'Cydweithredu rhanbarthol a chenedlaethol** - lle mae cyrff lleol yn cydweithio'n rhanbarthol neu'n genedlaethol i ddarparu gwasanaethau arbenigol, cymhleth neu drawsffiniol na allant eu cynnig yn effeithiol ac yn effeithlon ar eu pen eu hunain i safonau'r 21ain ganrif '* [41].

Fodd bynnag, gyda dyfodiad yr argyfwng ariannol a'r wasgfa ddilynol ar wariant sector cyhoeddus, mae mater darpariaeth ranbarthol gwasanaethau cyhoeddus wedi cael mwy o ffocws. Dadleuodd Adroddiad Simpson, a gyhoeddwyd yn 2011, am bwyslais llawer cryfach ar gaffael ystod eang o wasanaethau cyhoeddus ar y cyd ar lefel ranbarthol neu genedlaethol[42] ond fe'i gwnaeth yn glir, yng nghyd-destun pwysau ar gyllid cyhoeddus a setliad cymharol hael i lywodraeth leol hyd yma, nad yw 'pwyllo' yn opsiwn [43].

[40] Barn rhanddeiliaid am amcanion Cytundeb Partneriaeth y Trydydd Sector ac am y trefniadau i fonitro perfformiad seilwaith y trydydd sector. Adroddiad canfyddiadau', Adroddiad Ymchwil Gymdeithasol Rhif 29/2012, t.7 Llywodraeth Cymru.
[41] Creu'r Cysylltiadau: Cyflawni ar draws Ffiniau, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006 t.25-6
[42] Lleol, Rhanbarthol, Cenedlaethol: Pa wasanaethau yw'r rhai gorau i'w darparu ble? t. 6
[43] Ibid., p.10.

Gan adeiladu ar hyn ym mis Gorffennaf 2011 cytunodd Llywodraeth Cymru ar gynllun cydweithredu ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus, oedd yn cynnwys chwe rhanbarth[44]:

- Gogledd Cymru (chwe ardal Awdurdod Unedol Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam).
- Canolbarth a Gorllewin Cymru (Powys, Ceredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro).
- Bae Gorllewinol (Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr).
- Cwm Taf (Merthyr a Rhondda Cynon Taf).
- Caerdydd a'r Fro (Caerdydd a Bro Morgannwg).
- Gwent (Blaenau Gwent, Caerffili, Casnewydd, Sir Fynwy a Thorfaen).

Mewn gwirionedd, ymddengys fod peth tensiwn rhwng y ffocws cynyddol ar ranbartholi a'r pwyslais ar y Bwrdd Gwasanaethau Lleol a'r Cynllun Integredig Sengl fel bloc adeiladu allweddol darparu gwasanaethau lleol, ac awgrymodd 'Cydamcanu - Cydymdrechu' fod y gwaith o egluro'r berthynas yn mynd rhagddo:

*'Er y gallai'r agenda rhanbarthol ar gyfer cydweithredu fod yn wahanol i agenda Byrddau Gwasanaethau Lleol, mae cysylltiadau amlwg rhwng y ddwy. Mae'r cysylltiadau hyn yn debygol o ddatblygu'n wahanol, yn ôl y math o gytundeb sydd wedi'i wneud rhwng partneriaid ym mhob ardal, mewn ymateb i'r heriau sy'n codi wrth ddarparu gwasanaethau. Lle y mae grwpiau arwain rhanbarthol wedi'u sefydlu'n barod, dylent bennu dulliau clir o gysylltu trefniadau lleol a rhanbarthol ar gyfer asesu anghenion, cyflawni ac atebolrwydd. Os nad yw trefniadau lleol wedi'u gwneud yn barod, gallai Byrddau Gwasanaethau Lleol gydystyried y ffordd orau i'w sefydlu'*[45].

Awgrymodd 'Parhad a Newid' y byddai angen i Gynghorau Gwirfoddol Sirol (y mae'r cyfan ohonynt - gydag un eithriad, sef Cymdeithas Mudiadau

[44]Gweler: http://wales.gov.uk/topics/improvingservices/footprint/?lang=en
[45] Cydamcanu - Cydymdrechu; Cyfarwyddyd ar Integreiddio Partneriaethau a Chynlluniau, Llywodraeth Cymru, 2012, t.26

Gwirfoddol Gwent (GAVO) yn gweithio ar lefel awdurdod lleol) addasu i'r agenda newydd:

*'Mae cryn weithgarwch eisoes gan y Trydydd Sector ar y sail gydweithredol hon sy'n cynnwys nifer o'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol, ymysg eraill. Mae disgwyliad cyffredin hefyd y bydd sefydliadau'r Trydydd Sector yn datblygu mwy o weithio rhanbarthol yn y dyfodol, gyda'i gilydd a chydag asiantaethau eraill sy'n gysylltiedig â'r sail gydweithredol hon*[46]*.*

Yn fwy diweddar, yn Ebrill 2013, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adolygiad pellach o lywodraethiant a darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus gan Gomisiwn dan arweiniad Syr Paul Williams i bennu dulliau amgen ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus, yng ngoleuni barn Prif Weinidog Cymru '*nid yw hyn yn gynaliadwy nac yn dderbyniol yn y tymor hirach, o ystyried maint y toriadau sydd eto i ddod yn y sector cyhoeddus'*[47]*.*

Awgrymodd y gwerthusiad diweddar o fframwaith polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer llywodraeth leol rhwng 2007 a 2011 fod tensiynau sylweddol rhwng gwahanol nodau polisi (agenda rhanbarthol yn cael ei yrru gan yr angen am fwy o effeithiolrwydd ac agenda ymgysylltu â dinasyddion gyda ffocws ar fwy o bersonoli ar wasanaethau):

*'Felly, mae'r dystiolaeth o'n hastudiaeth yn awgrymu bod angen i Lywodraeth Cymru ddewis pa offerynnau polisi y mae'n credu sy'n cynnig y gobaith gorau o sicrhau gwasanaethau lleol mwy effeithiol ac effeithlon. Os penderfynir mai ymgysylltu â dinasyddion fydd y prif ysgogwr ar gyfer y newidiadau hyn, mae'n dilyn y bydd angen datganoli pwerau a chyllid i gymdogaethau. Gallai hyn awgrymu cadw awdurdodau unedol presennol ond annog rôl gryfach o lawer i dimau cymdogaeth, grwpiau cymunedol a chynghorau cymuned. Ar y llaw arall, os penderfynir mai'r ffordd orau o wella gwasanaethau a gwneud defnydd gwell o'r adnoddau sydd ar gael yw trwy gonsortia rhanbarthol neu hyd yn oed lleol, yna mae angen i'r Llywodraeth barhau i annog gwaith partneriaeth rhwng awdurdodau, neu ad-drefnu llywodraeth leol er mwyn creu*

---

[46] 'Parhad a Newid - Adnewyddu'r Berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector yng Nghymru', Llywodraeth Cymru, 2013, p.27

[47] Datganiad i'r Wasg Llywodraeth Cymru, 30 Ebrill 2013

*cynghorau mwy, ac efallai, ystyried pa un a yw'r rhaniad cyfredol o gyfrifoldebau rhwng llywodraeth leol a chanolog yn briodol'*[48].

Awgrymodd y gwerthusiad nad oedd yr agenda ymgysylltu â dinasyddion wedi'i wneud yn wirioneddol gyson:

*'Nid yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud digon i egluro'r hyn y mae ymrwymiad i ymgysylltu â dinasyddion yn ei olygu mewn gwirionedd; ac nid yw llywodraeth leol wedi neilltuo'r adnoddau sydd eu hangen i wireddu ymateb corfforaethol .... nid yw ymgysylltu a chydgynhyrchu effeithiol wedi'u hymsefydlu eto yn y ffordd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu rheoli a'u darparu'*[49].

Nododd yr adroddiad hefyd yn y cyd-destun hwn fod peth tystiolaeth fod dinasyddion yn amharod i ymgysylltu, gan nodi fod yr arolwg Byw yng Nghymru wedi awgrymu nad oedd gan wyth ym mhob deg o ymatebwyr ddiddordeb mewn cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau[50].

## 2.2 Y Trydydd Sector yng Nghymru

### *2.2.1 Trosolwg o'r Sector*

Mae'r Trydydd Sector yng Nghymru (fel y'i diffiniwyd gan WCVA) yn cynnwys tua 33,000 o gyrff[51], gyda chyfanswm incwm blynyddol o tua £1.6 biliwn[52]. Amcangyfrifir eu bod rhyngddynt yn cyflogi tua 50,000 o bobl[53].

Mae cyrff y trydydd sector wedi'u dosbarthu'n eang ar draws Cymru, gyda'r dosbarthiad rhwng gwahanol awdurdodau lleol yn fras (er nid yn union o bell ffordd) yn adlewyrchu poblogaeth pob awdurdod: felly, mae nifer y cyrff sy'n 'weithgar' mewn awdurdod lleol penodol yn amrywio o 2,521 yn Nhorfaen (gydag Ynys Môn, Blaenau Gwent a Merthyr Tudful hefyd â llai na 3,000 yr

[48] Dysgu i Wella: Asesiad Annibynnol o Bolisïau Llywodraeth Cymru ar gyfer Llywodraeth Leol, 2007 – 2011, Ysgol Fusnes Caerdydd, Adroddiad Ymchwil Gymdeithasol 58/2013 Llywodraeth Cymru t.9
[49] Ibid, t.80
[50] Ibid, t.76
[51] Adnodd Ystadegol Trydydd Sector, WCVA 2013 t. 4
[52] Ibid., t. 13
[53] Ibid., t,12

un) hyd 3,981 yn Sir Gaerfyrddin a 3,298 yn Rhondda Cynon Taf, gyda hefyd fwy na 3,500 o sefydliadau gweithgar yr un yn Abertawe a Gwynedd[54].

Fodd bynnag, mae mwyafrif helaeth cyrff trydydd sector (dros 90%) yn anghorfforedig[55], yn golygu eu bod yn annhebygol o gymryd rhan mewn unrhyw fath o ddarpariaeth gontractiol o wasanaethau cyhoeddus, tra bod WCVA yn amcangyfrif fod tua 3,500 (ychydig dan 11% o'r sector) yn ymwneud â rhyw fath o ddarpariaeth gwasanaeth, yn fwyaf cyffredin yn gysylltiedig ag Iechyd a Gofal Cymdeithasol (833), Plant a Theuluoedd (821), Cymuned (750), Crefydd (612), Anabledd (542) a Chelfyddydau, Diwylliant a Threftadaeth (452)[56].

Yn ariannol, daw rhan fwyaf o incwm cyrff trydydd sector gan y Llywodraeth (34%[57]) a chyfraniadau cyhoeddus (27%). Mae tua 30% o'r holl incwm yn deillio o weithgareddau masnachu a buddsoddi, ond ymddengys yn debygol mai dim ond cyfran fechan o hyn sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau cyhoeddus, gan fod tua £460 miliwn o'r £480 miliwn yma'n deillio o renti a delir i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig [58].

Ymhellach, mae tystiolaeth yn awgrymu fod cyrff trydydd sector wedi dioddef gwasgfa sylweddol fel canlyniad i'r dirwasgiad a thoriadau dilynol ar gyllid, gyda grantiau ac incwm yn gyffredinol yn gostwng gyda chynnydd mawr yn y galw am lawer o wasanaethau (yn neilltuol y rhai a ddarperir yn rhad ac am ddim). Mewn arolwg yn 2012, disgwyliai llawer mwy o sefydliadau i'w sefyllfa ariannol waethygu nag a ddisgwyliai iddi wella, gyda chyrff o faint canolig yn neilltuol debygol o fod yn besimistaidd[59]. Un pryder allweddol a nodwyd oedd toriadau mewn cyllid sector cyhoeddus a thueddiad i awdurdodau lleol symud ymaith o ddarparu grantiau neu Gytundebau Lefel Gwasanaeth tuag at

[54] Ibid., t.8
[55] Ibid, t.10
[56] Ibid., t. 15
[57] 19% o Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig; 12% o awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol a 3% o gyllid Ewropeaidd
[58] Ibid., t. 13 -14
[59] Arolwg Cyflwr y Sector, WCVA, 2012 t. 17

dendro cystadleuol fel ffordd o ostwng costau[60] sy'n clymu gyda thystiolaeth o ymchwil ehangach fod ffocws ar gomisiynu a chynyddu cysylltiadau ffurfiol rhwng y sector cyhoeddus a'r trydydd sector wedi niweidio cyrff llai yn y trydydd sector nad oes ganddynt y sgiliau na'r gallu (yn nhermau adnoddau a gallu i wrthsefyll newid dros gyfnod) i ymateb i'r gofynion a nodir gan gomisiynwyr lleol[61].

Mae'r pryderon hyn wedi arwain yn rhannol o leiaf at i WCVA ffurfio cynigion ar gyfer dull gweithredu newydd at wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru 'Rhoi Pobl yn y Canol'. Mae hyn yn dadlau fod angen llawer mwy o ffocws ar 'gyd-gynhyrchu', cynnwys dinasyddion yng nghanol penderfyniadau am ddarpariaeth gwasanaethau a chydnabod fod angen '*cyfuniad o weithredu gan yr unigolyn, y teulu, y gymuned a'r wladwriaeth lle'n aml y cyntaf o'r rhain yw'r pwysicaf*' er mwyn mynd i'r afael â'r heriau a achosir gan gynnydd yn y galw am wasanaethau aciwt a gostyngiad mewn cyllidebau a methiant i fanteisio ar weithredu gwirfoddol. Mae'r papur yn dadlau am ymrwymiad i bedair egwyddor: ymgysylltu dinasyddion; atal ac ymyrryd yn gynnar (yn cynnwys ffocws ar '*fabwysiadu comisiynu deallus yn hytrach nag ymarfer caffael cystadleuol byrdymor*'), chwilio am fodelau amgen o ddarpariaeth (e.e. cwmnïau cydfuddiannol, mentrau ar y cyd, bancio amser); a chraffu[62].

### *2.2.2 Cynghorau Gwirfoddol Sirol*

Mae'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn gyrff cyfryngol annibynnol sy'n cefnogi'r sector gwirfoddol ar lefel awdurdod lleol, gan gynrychioli'r sector a rhoi arweiniad strategol iddo[63]. Rhoddant gefnogaeth i gyrff trydydd sector yn eu hardaloedd: mae cyfanswm o 19 Cyngor Gwirfoddol Sirol yng Nghymru, gyda 14 ohonynt yn gwasanaethu ardal rhaglen Cydgyfeirio Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Mae'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn derbyn cyllid craidd gan Lywodraeth Cymru (drwy WCVA) am ddarparu ystod o wasanaethau a nodir mewn Cynllun Datblygu Integredig ar gyfer y sector. Nod y cynllun hwn yw

[60] Ibid., t.29
[61] Adolygiad lenyddiaeth ar gyfer Prosiect Datblygu a Chyflenwi Blaenoriaethau Byrddau Gwasanaethau Lleol - Cronfa Gymdeithasol Ewrop, Meza et al, Ysgol Fusnes Caerdydd, 2013, t.23
[62] Rhoi Pobl yn y Canol, WCVA, 2013
[63] Prosiect Datblygu Datblygu a Chyflawni Blaenoriaethau Byrddau Gwasanaethau Lleol, fersiwn 5, Adendwm 5 Para 2.4

sicrhau cyfres o ganlyniadau dan dri phennawd 'dinasyddion sy'n weithgar ac yn cymryd rhan', 'trydydd sector ffyniannus a chynaliadwy' a 'cyfrannu'n effeithiol at lunio polisi'[64]. Yn ymarferol, fel y nodir uchod, fodd bynnag, mae Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn amrywio'n sylweddol o ran maint ac adnoddau: yn ôl cofnodion y WCVA, mae nifer y staff a gyflogir gan y 14 Cyngor Gwirfoddol Sirol yn amrywio o 10 yn achos Medrwn Môn i 39 yng Nghyngor Gwirfoddol Sirol Castell-nedd Port Talbot a 44 yng Nghymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin (CAVS), tra bod gan Gymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Gwent (GAVO) tua 124 o staff (er yn gwasanaethu pedair ardal Awdurdod Lleol). Yn yr un modd, mae gwariant blynyddol yn amrywio yn yr un modd o £346,307 yn achos Medrwn Môn i £1.56 miliwn yn achos Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych (a £5.8 miliwn yn achos GAVO).

## 2.3 Prosiect Creu'r Cysylltiadau WCVA

### *2.3.1 Trosolwg o'r prosiect*

Mae gwreiddiau prosiect Creu'r Cysylltiadau yn deillio o gynnig prosiect neilltuol i WEFO gan y WCVA a'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol oedd â'r nod o ddarparu ystod eang o gefnogaeth i weithgareddau'r trydydd sector (gwirfoddol a chymunedol) wrth ddarparu gweithgareddau blaenoriaeth eu Byrddau Gwasanaethau Lleol perthnasol a grwpiau cynllunio gwasanaethau cyhoeddus cysylltiedig, a galluogi WCVA i roi cefnogaeth a chyngor strategol i ategu gwaith y Cynghorau Gwirfoddol Sirol[65]. Roedd y cynnig yn seiliedig ar gyllideb o ychydig dan £5 miliwn (y byddai £2.37 miliwn ohono wedi dod o'r ESF) ar gyfer prosiect yn rhedeg o ddiwedd 2010 i ganol 2015.

Fodd bynnag, ar gais WEFO, cytunodd y WCVA a Llywodraeth Cymru y dylai'r prosiect gael ei gynnwys fel elfen neilltuol o fewn prosiect ehangach Datblygu a Darpariaeth Blaenoriaeth Byrddau Gwasanaethau Lleol, a

[64] 'Parhad a Newid - Adnewyddu'r Berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, 2013, t11-12

[65] Drafft Gynllun Busnes f.3 WCVA (2010), .t.3

gymeradwywyd gan WEFO yn Chwefror 2011[66]. Cymeradwyodd WEFO gynllun busnes diwygiedig yn cynnwys yr elfen hon ac yn cynyddu cyllideb y prosiect ehangach gan tua £3.2 miliwn ym mis Rhagfyr 2011. Bydd y prosiect yn rhedeg hyd fis Mawrth 2015[67].

Dywedwyd mai prif nod y prosiect yw cryfhau gallu ymgyfraniad/cyfranogiad y trydydd sector drwy'r cynghorau gwirfoddol sirol mewn Byrddau Gwasanaethau Lleol a grwpiau eraill yn cynllunio gwasanaethau cyhoeddus, gan hefyd gyfrannu at dri nod arall y prosiect ehangach (datblygu Byrddau Gwasanaethau Lleol ymhellach i fod yn seilwaith cefnogaeth a darpariaeth cynaliadwy; cydlynu themâu cyffredin Byrddau Gwasanaethau Lleol i ostwng dyblygu ac annog rhannu dysgu a hybu gweithredu prosiectau newid ar y cyd - mewn siroedd unigol ar draws ffiniau Byrddau Gwasanaethau Lleol ar sail ranbarthol neu is-ranbarthol neu fel cynlluniau peilot ar themâu cyffredin)[68].

Yn neilltuol, amcanion Creu'r Cysylltiadau yw:

- cynyddu parodrwydd cyrff trydydd sector i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, yn cynnwys gwasanaethau a gynhyrchir ar y cyd;
- cynyddu nifer cyrff trydydd sector sy'n barod i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus drwy gonsortia neu gydweithio;
- sicrhau bod y trydydd sector yn fwy gwybodus am Fyrddau Gwasanaethau Lleol a chynnydd diwygio sector cyhoeddus yn ei ardal ac yn fwy cyffredinol;
- cynyddu gallu'r trydydd sector i ymgysylltu'n ystyrlon gyda defnyddwyr gwasanaethau; a
- chynyddu gallu'r trydydd sector i ddylanwadu ar benderfyniadau'n effeithio ar gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus[69].

[66] Prosiect Datblygu a Chyflawni Blaenoriaethau Byrddau Gwasanaethau Lleol, fersiwn 5, Adendwm 5 Para 1.0
[67] Daw cyllid ar gyfer y Cynghorau Gwirfoddol Sirol i ben ar 31 Rhagfyr 2014, gyda WCVA yn cael tri mis i ddirwyn y prosiect i ben.
[68] Ibid, Para. 1.2
[69] O Grynodeb y Prosiect fel y'i cyflwynwyd i WEFO.

Mae'n anelu i wneud hyn drwy gynyddu adnoddau dynol y Cynghorau Gwirfoddol Sirol, gan ariannu un swyddog datblygu prosiect ym mhob un o'r 13 Cyngor Gwirfoddol Sirol a dau yn GAVO, sy'n gweithredu ym Mlaenau Gwent a Chaerffili, yn ogystal ag adnodd rheoli prosiect canolig (1.9 cyfwerth ag amser llawn) yn y WCVA ei hun.

Caiff y swyddogion datblygu eu gweld fel adnodd a all adeiladu ar gynrychiolaeth bresennol Prif Swyddogion pob Cyngor Gwirfoddol Sirol ar y Byrddau Gwasanaethau Lleol i alluogi cynghorau gwirfoddol sirol, fel aelodau craidd o Fyrddau Gwasanaethau Lleol a phartneriaethau strategol eraill sy'n ymwneud â chynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus lleol, i gryfhau a dyfnhau eu heffaith ar agenda Byrddau Gwasanaethau Lleol, ac ategir hynny gan gefnogaeth a chydlynu gan y WCVA. Dywedir y bydd drwy hyn yn cryfhau gallu cyrff trydydd sector i gyfrannu'n effeithiol at ddarparu, datblygu ac ailgynllunio gwasanaethau cyhoeddus drwy ymwneud gyda'r Byrddau Gwasanaethau Lleol[70].

Disgwylir i'r swyddogion hefyd fod â rôl wrth ddarparu prosiectau Blaenoriaeth Byrddau Gwasanaeth Lleol, a ariannir gan y prosiect ESF ehangach[71].

Yn unol â hyn, mae'r disgrifiad swydd enghreifftiol ar gyfer Swyddogion Creu'r Cysylltiadau yn nodi'r dyletswyddau canlynol:

- Creu cyfleoedd ar gyfer dialog rhwng rhwydweithiau a grwpiau lleol, a chynllunwyr gwasanaethau a rheolwyr drwy gyflwyniadau mewn cyfarfodydd rhwydwaith;
- Datblygu rôl grwpiau perthnasol yn ymwneud â defnyddwyr gwasanaeth;
- Rhoi gwybodaeth (e-friffiadau, gwybodaeth gwefan, erthyglau cylchlythyr, papurau gwybodaeth) am ddatblygiadau mewn gwasanaethau cyhoeddus, a chyfleoedd i gymryd rhan;

[70] Prosiect Datblygu Datblygu a Chyflawni Blaenoriaethau Byrddau Gwasanaethau Lleol, fersiwn 5, Adendwm 5 Para 2.1
[71] Ibid. Para. 2.8.

- Trefnu digwyddiadau ymgynghori a gweithgareddau i alluogi dinasyddion lleol i ymwneud â chynllunio gwasanaethau cyhoeddus;
- Sicrhau y caiff barn grwpiau ar y cyrion a grwpiau cydraddoldeb eu cynnwys yng ngwaith y prosiect;
- Cefnogi mudiadau trydydd sector i ddatblygu dulliau effeithlon ar gyfer ymgyfraniad defnyddwyr gwasanaeth;
- Gweithio gyda phartneriaid sector cyhoeddus i godi ymwybyddiaeth ac annog defnyddio dulliau cynllunio cyfranogol;
- Cynorthwyo rhwydweithiau a fforymau trydydd sector i gyfrannu at gynllunio gwasanaethau cyhoeddus;
- Cefnogi a hyfforddi cynrychiolwyr trydydd sector i'w galluogi i ymgysylltu'n effeithlon gyda grwpiau cynllunio gwasanaethau cyhoeddus;
- Cynrychioli'r trydydd sector ar dimau cyd-gynllunio gwasanaethau cyhoeddus;
- Rhoi cyngor a help i ddarparwyr gwasanaeth posibl yn y trydydd sector;
- Cynorthwyo darparwyr gwasanaethau trydydd sector i addasu neu wella polisïau cyfle cyfartal ac amgylcheddol;
- Cynorthwyo darparwyr gwasanaeth trydydd sector i sefydlu mentrau neu wasanaethau ar y cyd.

Mae'r Cynllun Busnes yn nodi y bydd gan y swyddogion reolwyr llinell o fewn pob Cyngor Gwirfoddol Sirol ond y byddant hefyd yn gweithio gyda rheolwr prosiect a swyddog polisi'r WCVA i sicrhau y caiff nodau strategol y prosiect eu cyflawni'n lleol[72].

Fodd bynnag, dywedir mai'r WCVA yw'r cyd-noddwr, yn gyfrifol dan y Memorandwm Dealltwriaeth gyda Llywodraeth Cymru am sicrhau cyflenwi gweithgaredd ar wahân gan y WCVA a'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol [73] a'r disgwyliad yw y bydd WCVA yn rhoi fframwaith monitro manwl i bob Cyngor

[72] Ibid., Para 8.1
[73] Ibid., Para. 8.2

Gwirfoddol Sirol sy'n bartneriaid er mwyn casglu'r holl ddata ariannol a pherfformiad sydd eu hangen i reoli’r prosiect a chyflawni gofynion Llywodraeth Cymru, WEFO a'r Comisiwn Ewropeaidd [74].

Mae'r dull rheoli yn seiliedig ar y model Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau, gyda phob swyddog wedi datblygu cynllun gweithredu unigol yn seiliedig o amgylch pum canlyniad allweddol y prosiect:

- Mae cyrff trydydd sector yn fwy parod i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, yn cynnwys gwasanaethau a gynhyrchir ar y cyd;
- Cynnydd yn nifer y cyrff trydydd sector sy'n fwy parod i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus drwy gonsortia neu gydweithio;
- Y trydydd sector yn fwy gwybodus;
- Cynnydd yng ngallu'r trydydd sector i gysylltu'n ystyrlon gyda defnyddwyr gwasanaeth;
- Cynnydd yng ngallu'r trydydd sector i ddylanwadu ar benderfyniadau’n effeithio ar gynllun a darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus.

Mae'r Cynllun Busnes hefyd yn nodi y bydd y WCVA yn sefydlu Grŵp Llywio Prosiect yn cynnwys cynrychiolwyr WCVA a Chynghorau Gwirfoddol Sirol fydd yn cwrdd yn chwarterol[75].

Caiff y targedau ffurfiol ar gyfer elfen WCVA y prosiect fel y'u cytunwyd gan WEFO eu nodi yn Nhabl 2.1:

*Tabl 2.1: Targedau a gytunwyd gyda WEFO*[76]

| Allbwn | Nifer |
|---|---:|
| Cynlluniau lledaenu | 15 |
| Cynlluniau i gefnogi datblygiad Byrddau Gwasanaethau Lleol | 1 |
| Trefniadau cydweithio gyda chyrff trydydd sector | 13 |
| Lleoedd ar secondiad | 12 |

[74] Ibid. Para 8.3
[75] Ibid., Para. 8.19
[76] Ibid., Para 1.5

Gosodwyd cyllideb o £3,260,746 ar gyfer y prosiect, gyda £1,930,036 (59%) o hynny yn gyfraniad ESF, gyda £831,000 o arian cyfatebol gan Lywodraeth Cymru a £499,000 arall gan WCVA a Chynghorau Gwirfoddol Sirol.

*2.3.2 Model rhesymeg y prosiect*

Yn seiliedig ar yr uchod, a gwybodaeth a gafwyd o'r gwaith maes dechreuol mae'n bosibl llunio model amlinell o'r rhesymeg sy'n sail i'r prosiect. Dangosir hyn yn Ffigur 2.2 ar y dudalen nesaf.

| Mewnbynnau/ Adnoddau | Gweithgareddau | Allbynnau | Canlyniadau | Effaith |
|---|---|---|---|---|
| | **Cynrychiolaeth a gwybodaeth** | | | |
| | Sicrhau cynrychiolaeth y sector ar Fyrddau Gwasanaethau Lleol a grwpiau allweddol | Cynlluniau a chynnyrch lledaenu | Y trydydd sector yn fwy gwybodus | |
| | Rhoi gwybodaeth ar ddatblygiadau gwasanaethau cyhoeddus i fudiadau trydydd sector | Cynlluniau i gefnogi datblygiad Byrddau Gwasanaethau lleol | | |
| | **Mewnbwn i gynllunio gwasanaeth** | | | |
| 15 swyddog Creu'r Cysylltiadau mewn Cynghorau Gwirfoddol Sirol | Hwyluso mewnbwn o'r trydydd sector i gynllunio gwasanaethau cyhoeddus (drwy drefnu cysylltiadau) | Trefniadau cydweithredu rhwng y sector cyhoeddus/trydydd sector | Cynyddu gallu'r trydydd sector i ddylanwadu ar benderfyniadau'n effeithio ar ddyluniad a darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus | Symud tuag at ymyriadau cynnar yn gostwng yr angen am wasanaethau aciwt |
| | Hyfforddiant i alluogi mudiadau'r trydydd sector i gymryd rhan effeithlon mewn cynllunio gwasanaeth | Secondiadau rhwng y trydydd sector/sector cyhoeddus | | |
| | | Hyfforddi mudiadau mewn cynllunio gwasanaeth | | |
| | **Mewnbwn i ddarparu gwasanaethau** | | | |
| Rheolaeth llinell gan Gyngorau Gwirfoddol Sirol | Rhoi cyngor a help i ddarparwyr posibl o'r trydydd sector | Hyfforddi/cefnogi mudiadau i gyrraedd safonau caffaeliad | Mudiadau trydydd sector yn fwy parod i ddarparu gwsanaethau cyheoeddus, yn cynnwys gwasanaethau a gynhyrchir ar y cyd | Gwasanaethau cyhoeddus sy'n canolbwyntio ar y dinesydd yn cael eu dylunio'n well a'u darparu'n fwy effeithlon |
| 1.9 staff rheoli prosiect cyfwerth ag amser-llawn yn y WCVA | Hyfforddiant/cefnogaeth i sicrhau y gall mudiadau trydydd sector dendro (cyfle cyfartal, polisïau amgylcheddol ac ati) | Cytundebau cydweithredu o fewn y trydydd sector | Cynnydd yn nifer y cyrff trydydd sector sy'n fwy parod i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus drwy gonrotia neu gydweithio | Trydydd sector mwy cynaliadwy |
| Rheolaeth prosiect gan Lywodraeth Cymru | Cefnogi/trefnu cynlluniau ar y cyd rhwng cyrff trydydd sector | | | |
| | **Llais y Dinesydd** | | | |
| | Trefnu digwyddiadau/gweithgorau i alluogi cymryd rhan wrth gynllunio gwasanaethau cyhoeddus | Trefnu/mynychu digwyddiadau ymgynghori | Cynyddu gallu'r trydydd sector i gysylltu'n ymarferol gyda defnyddwyr gwasanaeth | |
| | Cefnogi grwpiau defnyddwyr gwasanaeth i gael mewnbwn | Hyfforddi mudiadau (trydydd sector/sector cyhoeddus) mewn ymgysylltu defnyddwyr gwsanaeth/cynllunio cyfranogol | | |
| | Cefnogi mudiadau trydydd sector i gysylltu'n effeithlon gyda defnyddwyr | | | |
| | Gweithio gyda phartneriaid i annog dulliau cynllunio cyfranogol | | | |

# 3. CANFYDDIADAU

## 3.1 Cyflwyniad

Yn yr adran yma, adroddwn ar ein canfyddiadau o'r cam dechreuol hwn o'r ymchwil, yn bennaf yn defnyddio y gwaith maes a wnaed ond hefyd elfennau o'r adolygiad llenyddiaeth.

Mae'n bwysig tanlinellu fod y sail tystiolaeth ar y cam hwn yn eithaf cyfyngedig, yn neilltuol yn achos y gwaelodlin (sy'n arwyddocaol oherwydd na chesglir mwy o ddata gwaelodlin yng nghamau diweddaraf yr ymchwil).

Mae'r gwaith maes ar astudiaethau achos yn rhoi ciplun cyntaf defnyddiol o'r sefyllfa amrywiol iawn yn y pum ardal yma, ond hyd yma seiliwyd hyn ar safbwynt nifer fechan yn unig o gyfweleion 'craidd' o fewn y Cynghorau Gwirfoddol Sirol a staff awdurdodau lleol yn gweithio i Fyrddau Gwasanaethau Lleol. Ategwyd hyn gan y grwpiau ffocws gyda gweddill swyddogion Creu'r Cysylltiadau a nifer fach o gyfweliadau gyda rhanddeiliaid cenedlaethol, er yn yr achos diwethaf, dywedodd nifer na theimlent fod yr wybodaeth ganddynt i roi sylwadau yn hyderus ar weithgareddau beunyddiol swyddogion Creu'r Cysylltiadau.

Ymhellach, er bod bron holl swyddogion Creu'r Cysylltiadau yn awr wedi cytuno ar Gynllun Gweithredu Unigol, a phob un wedi cyflwyno cardiau adrodd chwarterol ar weithgaredd ers mis Ionawr 2013, cawsom hi'n anodd cael darlun clir o weithgareddau a'r hyn a gyflawnwyd. Ni chaiff hyn ei helpu gan y ffaith fod fformat yr adroddiadau chwarterol wedi newid ar gyfer pob un o'r tri chwarter y mae gwybodaeth ar gael ar eu cyfer, ond y prif reswm (fel y trafodir islaw) yw bod pob swyddog yn gweithio mewn cyd-destun gwahanol iawn, yn nhermau adnoddau a blaenoriaethau'r Cyngor Gwirfoddol Sirol unigol sy'n cyflogi a hefyd strwythurau a diwylliant y Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Heb esboniad o'r cyd-destun yma (na chaniateir ar ei gyfer mewn gwirionedd yn fformat y cynllun gweithredu, er bod y cynlluniau prosiect ar gyfer pob ardal yn crynhoi'r canlyniadau, targedau a gwaelodlin poblogaeth ar

gyfer y Cynllun Integredig Sengl perthnasol, lle mae un yn bodoli), mae'n anodd gwneud synnwyr o'r adroddiadau hyn - barn a gaiff ei rhannu gan nifer o'n cyfweleion strategol.

Yn olaf, fel y nodir yn Adran 1, mae canlyniadau ein harolwg yn siomedig ac mae angen cryn bwyll wrth eu defnyddio. Er i ni gael rhestr o tua 161 enw o gysylltiadau allweddol ar draws pob un o 22 ardal awdurdod lleol Cymru - yn bennaf gynrychiolwyr allweddol Cynghorau Gwirfoddol Sirol a'r trydydd sector ar y Byrddau Gwasanaethau Lleol a staff gweithredol yn gweithio i bob Bwrdd Gwasanaethau Lleol y barnwyd eu bod yn fwy tebygol nag aelodau Byrddau Gwasanaethau Lleol o fod â pheth ymwybyddiaeth o Creu'r Cysylltiadau - ac er defnyddio adnoddau ychwanegol mewn arolwg ffôn yn hytrach nag arolwg ar y we, dim ond gyda 27 unigolion y llwyddasom i siarad. Mae Tabl 3.1 islaw'n rhoi gwybodaeth ar ganlyniad yr arolwg.

*Tabl 3.1 Canlyniad Arolwg Ffôn:*

| **Ymateb** | **Nifer** |
|---|---:|
| Dim rhif ffôn ar gael[77] | 21 |
| Rhif ffôn ddim yn cael ei ddefnyddio | 7 |
| Dim yn gweithio i'r Awdurdod Lleol/Cyngor Gwirfoddol Sirol erbyn hyn | 4 |
| Ffôn yn gweithio ond methu cael ateb (o leiaf ddau alwad) | 52 |
| Gadael neges - ond dim ymateb | 44 |
| Heb ateb yr arolwg oherwydd diffyg gwybodaeth o brosiect Creu'r Cysylltiadau | 6 |
| Llwyddiannus | 27 |
| **Cyfanswm** | **161** |

Felly'r gyfradd ymateb cyffredinol oedd 17% neu 21% pan eithrir y rhai na fedrid cysylltu â nhw (h.y. rhai heb rif ffôn yn gweithio neu oedd wedi gadael eu swydd)[78]. Er mai dim ond nifer fach a wrthododd yn bendant gymryd rhan

[77] Mewn llawer o achosion, er na roddwyd rhif ffôn gyda'r data gwreiddiol, fe fu modd i ni ddod o hyd i rifau ffon drwy switsfwrdd y corff neu drwy anfon e-bost at yr unigolyn a enwyd. Ni allasom wneud hynny mewn 18 achos, serch hynny, ac mewn tri achos roedd gan yr unigolion berthynas anuniongyrchol gyda'r corff a nodwyd (e.e. Cadeiryddion Anweithredol Byrddau Gwasanaethau Lleol neu Gynghorau Gwirfoddol Sirol) ac ni fedrid rhoi rhifau ffôn.
[78] Er braidd yn siomedig, nid yw hyn yn neilltuol o isel o gymharu gydag arolygon ffôn eraill sy'n tueddu i gael cyfraddau ymateb rhwng 20% a 33% unwaith y caiff y rhai na fedrir cysylltu â hwy eu hepgor. Mae hefyd yn sylweddol uwch nag y gellid bod wedi ei gyflawni gan y dull gwreiddiol o arolwg ar y we, lle mae cyfraddau ateb cyffredinol fel arfer dan 10%.

oherwydd gwybodaeth annigonol, ac er na wnaeth amseriad yr arolwg (canol Tachwedd i ganol Rhagfyr) helpu, roedd yn glir fod rhan o'r anhawster wrth sicrhau cwblhau cyfweliadau yn gysylltiedig â diffyg/adnabyddiaeth o'r prosiect ar ran rhanddeiliaid.

O'r rhai a wnaeth ymateb roedd ychydig dros eu hanner (14) o'r sector cyhoeddus, gyda phob un ond dau ohonynt (un ohonynt yn gweithio i Fwrdd Iechyd Lleol ac un yn Gadeirydd Anweithredol Bwrdd Gwasanaethau Lleol) yn cael eu cyflogi gan awdurdodau lleol. Roedd y 13 ymatebydd arall o'r trydydd sector, gyda'r cyfan heblaw dau ohonynt yn cael eu cyflogi gan Gynghorau Gwirfoddol Sirol. Dim ond pump o'r ymatebwyr (tri o Gynghorau Gwirfoddol Sirol a dau o Awdurdodau Lleol) oedd o ardal Dwyrain Cymru nad yw yn ardal y rhaglen Cydgyfeirio. O'r 22 o'r tu mewn i ardal y rhaglen Cydgyfeirio, roedd 20 yn gwybod am brosiect Creu'r Cysylltiadau a 16 wedi cael peth cyswllt gyda'r swyddog Creu'r Cysylltiadau yn eu hardal.

Yng ngweddill yr adran hon ystyriwn beth mae'r sail tystiolaeth gyfyngedig hon yn ei ddweud wrthym am y gwaelodlin cyn dechrau prosiect Creu'r Cysylltiadau (Adran 3.2), barn am y rhesymeg am y prosiect (Adran 3.3), y gweithgareddau ac allbynnau hyd yma (Adran 3.4), y rhagolygon ar gyfer canlyniadau ac effeithiau hirdymor (Adran 3.5) a rheolaeth prosiect (Adran 3.6).

### 3.2 Gwaelodlin: cyswllt blaenorol y sector gyda'r agenda diwygio gwasanaethau cyhoeddus

Er, fel y gwelsom yn Adran 2, ei bod yn thema sylweddol ym mholisi Llywodraeth Cymru dros flynyddoedd diweddar, mae'n syndod cyn lleied o dystiolaeth galed yr ymddengys sydd am raddfa neu effeithlonrwydd cyswllt y trydydd sector yn y broses o ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus neu'n wir ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus.

Yn nhermau cyswllt ffurfiol gyda Byrddau Gwasanaeth Lleol, datblygu Cynlluniau Integredig Sengl a'r broses o gomisiynu gwasanaethau, mae'r

wybodaeth a roddir gan Gynghorau Gwirfoddol Sirol yn Atodiad 1 yn rhoi trosolwg, gan awgrymu fod pob Bwrdd Gwasanaethau Lleol wedi bod mewn cyswllt gyda Chynghorau Gwirfoddol Sirol yn nhermau paratoi'r Cynlluniau Integredig Sengl ac y caiff pob Cyngor Gwirfoddol Sirol eu cynrychioli ar Fyrddau Gwasanaethau Lleol, ond (ym marn y Cynghorau Gwirfoddol Sirol) ychydig o awdurdodau lleol sydd â phroses dryloyw ar gyfer comisiynu gwasanaethau a dim ond un Bwrdd Gwasanaeth Lleol sydd wedi cynnwys cyrff eraill o'r trydydd sector yn yr aelodaeth.

Nid yw data arall gan WCVA , fel y nodir yn Adran 2, yn gwahaniaethu rhwng incwm yn deillio o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ac incwm cyffredinol a enillir, ac mae'r ffigurau'n awgrymu ei bod yn debyg bod yr incwm hwn yn eithaf cynnil.

Fel y gwelsom hefyd yn Adran 2, awgrymodd y gwerthusiad mwyaf cynhwysfawr o bolisi llywodraeth leol mai cynnydd cymharol fach fu yn y cyfnod hyd 2011 yn nhermau datblygu rôl 'llais y dinesydd' fel elfen allweddol mewn cynllunio gwasanaethau cyhoeddus, ac fe wnaeth yr adroddiad hwn hefyd fwrw amheuon ar ba mor effeithlon yw llawer o'r gwaith partneriaeth hyd yma:
'*Mae rhwystrau ymarferol a diwylliannol mawr rhwng cydweithredu a thystiolaeth gynyddol na fydd ymagwedd gwbl wirfoddol yn llwyddo'*[79]***.***

Dadleuodd y gwerthusiad hefyd y gellid tybio fod dau fodel partneriaeth gwahanol yn gweithredu o fewn Cymru:

- partneriaethau effeithiolrwydd*,* yn canolbwyntio'n bennaf ar ostwng costau ac yn bennaf yn cynnwys awdurdodau lleol eraill ond nid y trydydd sector, a
- partneriaethau ymgysylltu, yn canolbwyntio ar ymgysylltu rhanddeiliaid, darparu gwasanaethau mwy cydlynol a diwallu gofynion

[79] Dysgu i Wella: Asesiad Annibynnol o Bolisïau Llywodraeth Cymru ar gyfer Llywodraeth Leol, 2007 – 2011, Ysgol Fusnes Caerdydd, Adroddiad Ymchwil Gymdeithasol 58/2013 Llywodraeth Cymru 58/2013 t.6

> llywodraeth, yn cynnwys rhannau eraill y sector cyhoeddus, y sector gwirfoddol ac i raddau llai, sefydliadau sector preifat [80].

Roedd ymatebwyr o awdurdodau lleol i arolygon a gynhaliwyd fel rhan o'r gwerthusiad yn sylweddol fwy tebygol o ddynodi'r trydydd sector fel partneriaid allweddol mewn nifer o feysydd polisi, yn arbennig addysg, gofal cymdeithasol oedolion, tai a materion corfforaethol[81].

Nododd y gwerthusiad fod cyfweleion o awdurdodau lleol yn ymwneud â phartneriaethau ymgysylltu (a'r rhai a ddywedodd fod y trydydd sector yn bartneriaid pwysig) yn fwy tebygol o ddweud fod partneriaethau'n ychwanegu gwerth a gwella gwasanaethau, ond yn llai tebygol o ddweud eu bod yn cynhyrchu arbedion ariannol neu arbedion eraill.[82]

Fodd bynnag, efallai nad yw'n syndod iddo hefyd adrodd dros y cyfnod rhwng 2008-2011, wrth i'r dirwasgiad economaidd a'r canlyniadau ar gyfer gwariant cyhoeddus ddod yn gliriach, y daeth ymgysylltu dinasyddion yn bryder llai pwysig yn gymharol a bod ffocws gweithio partneriaeth yn gynyddol ar yr agenda effeithiolrwydd. Golygai hyn fwy o bwyslais ar gydweithio rhwng awdurdodau lleol, er mewn llawer o achosion fod y trydydd sector yn parhau'n bartner pwysig[83].

Awgrymir y darlun cymysg yng nghyswllt pwysigrwydd gweithio partneriaeth ac yn neilltuol ymgysylltiad y trydydd sector wrth ddylunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus hefyd yng ngwaith diweddar a wnaed gwerthuswyr prosiect ehangach yr ESF ar Fyrddau Gwasanaethau Lleol.

Canfu arolwg o bartneriaethau prosiect ESF a gynhaliwyd ganol 2013, pan ofynnwyd iddynt ddynodi i ba raddau yr oedd eu prosiect yn canolbwyntio ar wahanol themâu, cynnwys dinasyddion mewn penderfyniadau am ddarpariaeth gwasanaethau a chynyddu rôl y trydydd sector mewn darparu

[80] Ibid., t. 52
[81] Ibid., Ffigur 4.2, t. 54
[82] Ibid., t. 59-60
[83] Ibid., t. 57

gwasanaeth oedd y ddau ffocws lleiaf perthnasol, gyda 25% a 26% yn yr un drefn yn rhoi 6 neu 7 i hyn ar raddfa o 1-7 (roedd hyn yn cymharu â 55% yn rhoi'r un graddiad i 'ddarparu gwasanaethau mwy cydlynol' a 54% yn rhoi'r un graddiad i 'ganfod datrysiadau newydd i'r problemau sy'n wynebu'r ardal yma', er enghraifft). Wrth gwrs mae'n bwysig tanlinellu fod prosiectau a ariennir gan brosiect ehangach yr ESF ar Fyrddau Gwasanaethau Lleol yn cynnwys ystod eang o themâu gwahanol, ond yn ddiddorol, roedd y canfyddiad hwn yn fras debyg i ganfyddiadau arolwg cyfochrog o bartneriaethau eraill dan arweiniad awdurdodau lleol, lle'r oedd y ffigurau cyfatebol yn 30% a 18% (er y gall fod yn werth nodi fod pwysigrwydd darparu gwasanaethau cyhoeddus gan y trydydd sector hyd yn oed yn is ymysg y partneriaethau hyn). Ymhellach, roedd yr un themâu hyn ymysg rhai lle dywedodd ymatebwyr fod eu prosiectau yn lleiaf tebygol o wneud gwahaniaeth, gydag ychydig dros hanner y rhai a ystyriai fod ymgysylltu dinasyddion neu ddarparu gwasanaethau cyhoeddus gan y trydydd sector yn ffocws allweddol ar gyfer eu prosiect yn hyderus ei fod yn llwyddiannus yn y cyswllt hwn[84].

Gan droi at ein harolwg ein hunain, gofynnwyd i ymatebwyr roi eu barn ar y sefyllfa cyn 2012 - mewn geiriau eraill cyn dechrau prosiect Creu'r Cysylltiadau - ar amrywiaeth o faterion perthnasol. Er bod angen pwyll wrth drin y canlyniadau ac er na allai ymatebwyr roi barn mewn cyfran sylweddol o achosion, maent yn awgrymu patrwm gweddol gyson o lefelau rhesymol o ymgysylltu, gydag ymatebwyr y sector cyhoeddus yn gyson rywfaint yn fwy cadarnhaol na rhai o'r trydydd sector ei hunan.

Felly, mewn ymateb i gwestiynau am ran y trydydd sector mewn ystod o agweddau o gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus:

- Credai 15 allan o 27 ymatebydd fod y trydydd sector wedi cyfrannu un ai i raddfa fawr (saith) neu i ryw raddau (wyth) at gynllunio a dylunio gwasanaethau cyhoeddus drwy gymryd rhan mewn partneriaethau perthnasol;

[84] Arolwg Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2013: Cyflwyniad Canfyddiadau Allweddol i Grŵp Llywio'r Gwerthusiad, 14 Tachwedd 2013.

- Credai 16 ymatebydd fod y trydydd sector wedi cyfrannu un ai i raddau mawr (chwech) neu i ryw raddau (deg) at ddylunio gwasanaethau cyhoeddus drwy weithredu fel sianel ar gyfer llais defnyddwyr;
- Yn yr un modd, teimlai 16 ymatebydd fod y trydydd sector wedi ymwneud â chynnig am y contractau tendr agored ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus un ai i raddau mawr (chwech) neu i ryw raddau (deg) ond credai mwy na dau-draean fod y trydydd sector wedi bod â rhan wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus eu hunain un ai i raddau mawr (pump) neu i ryw raddau (15);
- Dim ond deg a gredai fod y trydydd sector wedi cymryd rhan yn y craffu ar wasanaethau cyhoeddus, gyda dau yn dweud y bu hyn i raddau helaeth ac wyth ei fod i ryw raddau. (Mae mwy o fanylion yn Ffigur 3.1).

*Ffigur 3.1: Barn am rôl y y trydydd sector mewn amrywiaeth o weithgareddau cyn 2012*

| *Cyn 2012, i ba raddau oedd y trydydd sector yn ardal eich awdurdod lleol yn cymryd rhan gyda* | I raddau mawr | I ryw raddau | Dim o gwbl | Yn dibynnu ar y gwasanaeth cyhoeddus dan sylw | Dim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfrannu at ddylunio cynllunio gwasanaethau cyhoeddus drwy gymryd rhan weithgar mewn partneriaethau perthnasol? | 7 | 8 | 2 | 4 | 5 |
| Cyfrannu at ddylunio gwasanaethau cyhoeddus drwy weithredu fel sianel ar gyfer llais 'defnyddiwr'? | 6 | 10 | 3 | 1 | 6 |
| Craffu ar wasanaethau cyhoeddus? | 2 | 8 | 7 | 2 | 7 |
| Cynnig am gontractau a gaiff eu tendro'n agored ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus? | 6 | 10 | 1 | 1 | 8 |
| Darparu gwasanaethau cyhoeddus? | 5 | 15 | 1 | 1 | 4 |

- Yn yr un modd, credai tua dau-draean yr ymatebwyr fod y trydydd sector, cyn 2012 wedi dylanwadu ar y Byrddau Gwasanaethau Lleol a phartneriaethau allweddol eraill un ai i raddau mawr (pedwar) neu i ryw raddau (14)[85].

Pan ofynnwyd iddynt pa gyrff trydydd sector oedd yn hanesyddol wedi bod yn fwyaf gweithgar wrth gyfrannu at ddatblygu gwasanaethau cyhoeddus,

[85] Credai un na fu ganddo unrhyw ddylanwad ac ni wyddai pump.

rhoddodd cyfweleion ystod eang o atebion, ond yn aml soniodd yr ymatebwyr sector cyhoeddus hynny a allai roi sylwadau am y Cyngor Gwirfoddol Sirol ei hunan, gan awgrymu rôl allweddol Cynghorau Gwirfoddol Sirol fel cyfrwng rhwng y trydydd sector a'r sector cyhoeddus.

Yn yr un modd, credai'r rhan fwyaf o ymatebwyr a allodd roi sylwadau fod cyrff tu allan i'r trydydd sector wedi bod yn fras gefnogol i gynnwys y trydydd sector mewn materion gwasanaethau cyhoeddus cyn 2012:


- Credai 18 ymatebydd fod llywodraeth leol a darparwyr gwasanaethau cyhoeddus eraill yn eu hardal yn cefnogi ymgyfraniad y trydydd sector mewn cynllunio a dylunio gwasanaethau cyhoeddus un ai i raddau mawr (pedwar) neu i ryw raddau (14)[86];
- Credai 14 ymatebydd fod llywodraeth leol a darparwyr eraill gwasanaethau cyhoeddus yn eu hardal yn cefnogi cyrff trydydd sector yn darparu gwasanaethau cyhoeddus un ai i raddau mawr (chwech) neu i ryw raddau (wyth)[87];
- Yn yr un modd credai 19 ymatebydd fod Llywodraeth Cymru yn cefnogi ymgyfraniad y trydydd sector mewn llunio gwasanaethau cyhoeddus, er mai dim ond un ohonynt a gredai iddi fod yn gefnogol iawn[88].

Yn fwy cyffredinol, credai ymatebwyr fod gan ddinasyddion ryw lefel o fewnbwn i ddyluniad a darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus cyn 2012, gyda thri yn dweud fod hyn wedi digwydd i raddau mawr a 17 ei fod wedi digwydd i ryw raddau[89], ond roeddent yn gymharol amheus am brosesau cyffredinol dylunio a chynllunio ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus (Ffigur 3.2)

---

[86] Credai pump fod hyn yn amrywio yn dibynnu pa wasanaeth cyhoeddus oedd yn cael ei ystyried ac ni wyddai pedwar.
[87] Credai un nad oeddent i gyd yn gefnogol, dywedodd chwech eu bod yn amrywio yn dibynnu pa wasanaeth cyhoeddus oedd yn cael ei ystyried a ni wyddai pump.
[88] Credai tri nad oedd wedi bod naill ai'n gefnogol nac yn anghefnogol ac ni wyddai pump.
[89] Credai dau nad oedd dinasyddion yn cymryd unrhyw ran ac i wyddai pedwar.

*Ffigur 3.2: Barn ar brosesau dylunio a chynllunio gwasanaethau cyhoeddus cyn 2012.*





Efallai nad yw'n syndod fod gwahaniaeth clir yma rhwng barn ymatebwyr o'r sector cyhoeddus ac ymatebwyr o'r trydydd sector, gyda dim ond un o'r 13 o gyfweleion o'r trydydd sector yn dweud fod y prosesau'n well na 'rhesymol/digonol', o gymharu â mwy na hanner (wyth o 14) y cyfweleion o'r sector cyhoeddus.

Gan droi at allu'r trydydd sector i ymgysylltu gyda'r agenda diwygio gwasanaethau cyhoeddus, credai'r rhan fwyaf a allodd roi sylwadau (21 i gyd) fod gan y trydydd sector cyn 2012 y gallu i ddylanwadu ar a darparu gwasanaethau cyhoeddus i ryw raddau[90]. Credai mwyafrif hefyd y bu cyrff gwirfoddol a chymunedol yn fodlon cydweithio i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus (gyda phump yn dweud fod hyn yn wir i raddau mawr a 11 ei fod yn wir i ryw raddau)[91].

Pan ofynnwyd yn fwy penodol iddynt am rwystrau neu gyfyngiadau sy'n wynebu'r trydydd sector wrth gymryd rhan wrth gynllunio, dylunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus, soniodd ymatebwyr yn neilltuol am ddiffyg staff ac adnoddau a diffyg gwybodaeth am y prosesau cysylltiedig (Ffigur 3.3).

[90] Ni wyddai pedwar. Ni chredai unrhyw ymatebydd fod gan y sector y gallu i wneud hynny i raddau mawr neu i ddim graddau.
[91] Dywedodd tri nad oedd yn wir o gwbl ac ni wyddai saith.

*Ffigur 3.3: Barn am y rhwystrau neu gyfyngiadau sy'n wynebu'r trydydd sector*




Efallai ei bod yn drawiadol na soniodd dim un o'r ymatebwyr am ddiffyg diddordeb ar ran y sector neu berthynas wael gyda'r Byrddau Gwasanaethau Lleol. Roedd rhwystrau eraill a ddynodwyd yn cynnwys diffyg galluedd cyffredinol, barn am y trydydd sector fel partner iau yn hytrach na phartner cyfartal, a phryderon comisiynwyr fod darpariaeth trydydd sector yn annibynadwy oherwydd ei fod yn dibynnu'n helaeth ar fewnbwn gwirfoddolwyr a chyllid grant tymor byr.

Yn gyffredinol, roedd y rhanddeiliaid cenedlaethol y gwnaethom eu cyfweld yn amharod i gyffredinoli am y sefyllfa cyn dechrau'r prosiect, gan ddadlau fod maint yr ymgysylltiad gwirioneddol gyda'r trydydd sector am gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus wedi amrywio'n enfawr, rhwng gwahanol ardaloedd awdurdodau lleol a hefyd mewn rhai achosion rhwng gwahanol rannau o'r un sefydliad. Er yr ystyrid bod rhai meysydd polisi, yn neilltuol efallai iechyd a gofal cymdeithasol a phlant a phobl ifanc, yn rhai a dueddai i

fod â hanes cryfach o ymgysylltu (yn yr achos cyntaf, gyda chyllido Cydlynwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol o fewn y Cynghorau Gwirfoddol Sirol wedi bod â rôl sylweddol iawn), er y credid yma fod gwahaniaethau sylweddol iawn rhwng, er enghraifft, wahanol Fyrddau Iechyd Lleol.

Yn nhermau ardaloedd yr astudiaethau achos hefyd, cyflwynwyd darlun cymysg iawn gan gyfweleion. Yn y cyfan heblaw un (astudiaeth achos lle'r oedd y berthynas rhwng yr awdurdod lleol a'r Cyngor Gwirfoddol Sirol yn anodd), ymddengys fod y berthynas ffurfiol cyn 2012 yn rhesymol dda neu'n well (yn arbennig felly yn achos astudiaethau achos a a b), gyda Chynghorau Gwirfoddol Sirol yn cael eu cynrychioli ar y Byrddau Gwasanaethau Lleol a fforymau eraill allweddol, ac felly'n cael cyfle i gyfrannu at drafodaethau ar ddatblygu a darparu gwasanaethau cyhoeddus, er mewn rhai achosion (e.e. astudiaethau achos b ac e), ystyrid fod ad-drefnu strwythurau partneriaeth fel canlyniad i gyflwyno'r Cynlluniau Integredig Sengl wedi ymyrryd, gan ostwng cyfleoedd i'r sector.

Fodd bynnag, mewn o leiaf dair o ardaloedd yr astudiaethau achos (c, d ac e), teimlai cyfweleion o'r trydydd sector nad oedd ymrwymiad partneriaid sector cyhoeddus i wir ymgysylltu wedi bod yn neilltuol o ddwfn. Mewn dwy ohonynt (c a d), ystyrid bod yr awdurdodau lleol ar adegau wedi ceisio osgoi'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol drwy ddefnyddio fforymau neu rwydweithiau eraill ac mewn ardal arall (astudiaeth achos b), roedd hefyd rai pryderon gan gyfweleion awdurdodau lleol nad oedd y Cyngor Gwirfoddol Sirol yn cynrychioli’r sector i gyd. Mewn rhai achosion (e.e. astudiaethau achos b ac e), hyd yn oed lle tybid fod y berthynas yn rhesymol dda, roedd awdurdodau lleol yn amharod i ddefnyddio'r sector i *gynrychioli* 'llais y dinesydd' ac yn gwrthwynebu'r farn y dylai'r sector gyflawni'r rôl hon, gan gredu fod hyn yn peryglu rhoi canolwr yn ei le rhwng darparwyr/comisiynwyr gwasanaethau a'r defnyddwyr.

Roedd yn drawiadol nad oedd gan gyfweleion astudiaethau achos, yn gyffredinol, unrhyw drosolwg gwirioneddol o faint ymgyfraniad y trydydd sector mewn darparu gwasanaethau cyhoeddus o fewn eu hardaloedd cyn


dechrau'r prosiect, pwynt a adleisiwyd gan rai a gymerodd ran mewn grwpiau ffocws, er bod y sector wedi'i rannu'n gynyddol rhwng mudiadau mwy (yn arbennig mewn meysydd megis gwasanaethau plant neu bobl hŷn) oedd â'r gallu a'r sgiliau i dendro neu negodi'n effeithlon gydag awdurdodau lleol a chyrff sector cyhoeddus eraill a mudiadau llai oedd yn ei chael yn anodd ymwneud gyda'r materion hyn, hyd yn oed gyda chefnogaeth y Cyngor Gwirfoddol Sirol, yn thema gyffredin. Fel gyda rhanddeiliaid cenedlaethol, roedd meysydd polisi megis gwasanaethau plant ac iechyd a gofal cymdeithasol yn gyffredinol yn rhai lle bu gan y trydydd sector fwyaf o ymgyfraniad yn y gorffennol. Fodd bynnag, nododd nifer o'r rhai a gyfwelwyd fod diffyg cysylltiad yn ymarferol rhwng trafodaethau lefel uchel y Bwrdd Gwasanaethau Lleol a'r gwaith o gomisiynu gwasanaethau ac mewn rhai achosion (e.e. astudiaethau achos b, c ac e), teimlid mewn gwirionedd mai ychydig o achosion a fu o wasanaethau'n cael eu caffael yn allanol.

### 3.3 Rhesymeg y Prosiect

Yn gyffredinol, credai bron bawb a gyfwelwyd  y cynlluniwyd prosiect Creu'r Cysylltiadau i ddiwallu angen gwirioneddol yn nhermau gwella gallu'r sector i gyfrannu'n effeithlon at waith Byrddau Gwasanaethau Lleol ac i ymgysylltu'n fwy effeithlon mewn materion am ddyluniad a darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus. Tueddai cyfweleion i ystyried fod swyddogion Creu'r Cysylltiadau yn ategiad pwysig i ymgyfraniad Prif Swyddog y Cyngor Gwirfoddol Sirol yn y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ac yn ffordd o 'weithredoli' y berthynas rhwng y trydydd sector a chyrff cyhoeddus, lledaenu gwybodaeth, gwneud cysylltiadau a hwyluso cysylltiadau. Roedd swyddogion Creu'r Cysylltiadau yn aml yn cael eu gweld fel 'broceriaid', yn helpu mudiadau perthnasol o'r trydydd sector neu fforymau i wneud y cysylltiadau priodol gydag awdurdodau lleol a sefydliadau eraill ac felly helpu'r sector cyhoeddus i ddynodi mudiadau trydydd sector a allai roi mewnbwn defnyddiol i 'r dadansoddiad o anghenion sy'n sail i'r Cynllun Integredig Sengl.

Gofynnwyd hefyd i'r 16 a ymatebodd i'r arolwg a fu â pheth cyswllt gyda swyddog Creu'r Cysylltiadau yn eu hardaloedd hefyd beth a gredent oedd agweddau allweddol rôl y swyddog. Dangosir y canlyniadau yn Ffigur 3.4.

*Ffigur 3.4: Barn ar elfennau allweddol rôl swyddogion Creu'r Cysylltiadau.*




Mae'n ddiddorol y tybid fod cysylltiad uniongyrchol rhwng prif agweddau'r rôl â gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Lleol a phartneriaethau eraill (y swyddogaeth cynrychioli a gwybodaeth) ac annog cydweithio rhwng cyrff yn y trydydd sector: ystyriai'r grŵp yma o gyfweleion bod rôl dylanwadu ar gynllunio gwasanaeth a rôl hwyluso llais y dinesydd yn llawer llai canolog (er y gellid dadlau mai'r cyntaf yw'r diben y mae cynrychiolaeth yn fodd hanfodol o'i gyflawni).

Efallai fod cysylltiad rhwng y  farn yma am rôl swyddogion Creu'r Cysylltiadau â nifer o *gafeatau* pwysig a wnaeth cyfweleion eraill ar gymeradwyaeth o resymeg gyffredinol prosiect Creu'r Cysylltiadau. Gellir grwpio'r rhain dan bedwar prif bennawd.

Roedd y cyntaf yn ymwneud ag amseriad. Soniodd llawer o'r cyfweleion y bu oedi hir iawn rhwng y cynnig prosiect gwreiddiol (oedd yn dyddio'n ôl i tua 2008/9) a'r prosiect yn derbyn cyllid. Yn wir, nododd o leiaf ddau o Gynghorau Gwirfoddol Sirol ardaloedd astudiaethau achos (e.e. b ac e) eu bod wedi anobeithio y byddai'r prosiect byth yn dod i fodolaeth. Cafodd yr oedi nifer o ganlyniadau, a dadleuwyd fod hynny wedi gostwng perthnasedd y prosiect fel y'i cynlluniwyd:

- Gyda'r ffocws cryf ar y gwasanaethau cyhoeddus fel rhan o gylch gorchwyl craidd y seilwaith trydydd sector, roedd Cynghorau Gwirfoddol Sirol oedd ag adnoddau gwell eisoes wedi rhoi trefniadau eraill ar waith i gefnogi ymgyfraniad y trydydd sector mewn gweithio partneriaeth (er enghraifft, dynodi staff i gymryd rhan mewn is-grwpiau i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol a chynnwys hyn yn eu disgrifiad swydd), gan olygu fod swyddogion Creu'r Cysylltiadau wedi gorfod 'gweithio o amgylch' trefniadau oedd yn bodoli eisoes;
- Yn yr un modd, roedd nifer o brosiectau a chynlluniau eraill (rhai ohonynt yn derbyn cyllid Ewropeaidd) megis Cymunedau sy'n Cydweithio [92] a Cymunedau Mentrus[93] wedi dod ar waith oedd ag amcanion (a thargedau) cysylltiedig yn nhermau meithrin gallu i alluogi cyrff yn y trydydd sector i weithredu mewn modd mwy masnachol. Enghraifft eraill oedd y prosiect Broceriaid[94] yng Ngorllewin Cymru, tra'n fwy diweddar, roedd y rhaglen Lleisiau Lleol a ariannwyd gan y Gronfa Loteri Fawr wedi dod ar waith, hefyd yn gwneud gweithgaredd cysylltiedig[95]. (Mae Atodiad 1 yn cynnwys gwybodaeth bellach ar ymwneud gwahanol Gynghorau Gwirfoddol Sirol â'r prosiectau hyn);
- Bu Byrddau Gwasanaethau Lleol mewn cyfnod o newid fel canlyniad i newidiadau a gyflwynwyd yn dilyn Rhaglen Lywodraethu 2011 a'r

---

[92] Prosiect ERDF yn ne-orllewin Cymru a hyrwyddwyd gan y Cynghorau Gwirfoddol Sirol ac awdurdodau lleol i roi cefnogaeth datblygu trefniadaeth i gyrff yn y trydydd sector i ddod yn fwy cynaliadwy yn ariannol. Gweler http://www.collaborativecommunities.org.uk/english/about-us.html

[93] Prosiect ERDF ledled Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a gyflwynir gan Gynghorau Gwirfoddol Sirol i roi cefnogaeth i gyrff ac unigolion sydd â diddordeb mewn sefydlu mentrau cymdeithasol. Gweler http://wefo.wales.gov.uk/news/latest/120206enterprisingcommunities/?lang=en

[94] Prosiect a gaiff ei ariannu gan brosiect ehangach Byrddau Gwasanaethau Lleol yr ESF ac yn darparu Broceriaid Iechyd a Gofal Cymdeithasol i helpu galluogi mewnbwn o'r trydydd sector i gyd-gynllunio llwybrau iechyd. Gweler http://wales.gov.uk/docs/dpsp/general/LSB/130814agreedpropen.pdf

[95] http://www.biglotteryfund.org.uk/global-content/programmes/wales/community-voice

gofyniad i symud i Gynllun Integredig Sengl a rhoi'r gorau i gyfres o gynlluniau a strwythurau partneriaeth blaenorol. Er y gellid dadlau bod hyn wedi gwneud y gofyniad am lif da o wybodaeth yn bwysicach, mae wedi ymyrryd ar strwythurau sefydledig y gallai'r swyddogion fod wedi ffitio mewn iddynt yn rhwyddach a hefyd gellid dadlau eu bod wedi symud Byrddau Gwasanaethau Lleol ymaith o fod â ffocws ar faterion darparu gwasanaeth i ffocws mwy sylfaenol (ond mwy haniaethol) ar ddadansoddi a llunio strategaethau. Teimlai rhai o blith y cyfweleion mai ychydig o fewnbwn mewn gwirionedd a fu gan y Byrddau Gwasanaethau Lleol mewn comisiynu ac nad oedd y rheolwyr canol oedd yn gyfrifol wedi eu targedu mor rhwydd gan y prosiect fel y'i dyluniwyd;

- Ar yr un pryd, er bod llywodraeth leol yn neilltuol yn gyffredinol wedi'i chysgodi rhag toriadau mawr mewn cyllidebau cyn 2011/12, roedd hyn bellach wedi dod yn fater pwysig iawn. Er bod rhai cyfweleion yn cydnabod fod hyn yn cynnig cyfleoedd i'r trydydd sector yn nhermau ail-gynllunio sylweddol ar wasanaethau cyhoeddus, gyda llawer mwy o ffocws ar ymdrech wirfoddol (er yn aml mewn dull ad hoc yn hytrach na strategol), teimlai'r rhan fwyaf ei fod wedi arwain at i'r sector cyhoeddus droi mewn arno'i hun. Ymhellach, roedd trosiant uchel ymhlith staff fel canlyniad i ddileu swyddi yn golygu fod ymyrryd ar gysylltiadau yn aml.

Roedd yr ail grŵp o bryderon am y rhesymeg am y prosiect yn ymwneud â'r hyn a welwyd fel ei lefel uchelgais, o gofio am yr adnoddau cyfyngedig ac amserlen fer y prosiect. Pwysleisiodd llawer o'r rhai y gwnaethom eu cyfweld (efallai'n arbennig swyddogion Creu Cysylltiadau eu hunain) mai dim ond dros gyfnod hir y gellid sicrhau'r newid diwylliant fyddai ei angen i sicrhau newid sylfaenol i'r ffordd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu dylunio a'u darparu, ac nad oedd yn realistig disgwyl gweld canlyniadau cadarn o fewn oes y prosiect, oedd yn fwy am *'osod y sylfeini'.* Pwysleisiodd rhai hefyd, o gofio am yr amgylchedd cymhleth iawn yr oedd y prosiect yn gweithredu ynddo a'r ystod o ffactorau allanol oedd hefyd yn dylanwadu ar benderfyniadau ar wasanaethau cyhoeddus, y byddai'n amhosibl priodoli unrhyw newidiadau a arsylwyd i'r prosiect ar ei ben ei hun.

Yn drydydd, ac yn gysylltiedig â hyn, tanlinellodd rhai cyfweleion yr anghysondeb rhwng lefel uchelgais a natur cymharol iau swyddi Creu'r Cysylltiadau, gan ddadlau ei bod yn afresymol disgwyl i staff lefel ganol ar gontractau tymor byr fedru cyflawni'r rhannau hynny o'r rôl oedd yn ymwneud â dylanwadu ar gomisiynwyr sector cyhoeddus:

*'Mae'n debyg eu bod ar lefel rhy isel - mae'n debyg eu bod yn ei chael yn anodd gwybod faint o ddylanwad y gallant fod ag ef mewn gwirionedd'.*

Yn bedwerydd, ystyriwyd bod y gwahaniaethau sylweddol yn adnoddau a blaenoriaethau Cynghorau Gwirfoddol Sirol a'u perthynas gyda phartneriaid sector cyhoeddus yn broblemus yng nghyd-destun prosiect oedd wedi defnyddio dull gweithredu cymharol anwahaniaethol yn nhermau cynnig un swydd ar gyfer pob ardal awdurdod lleol. Mewn rhai achosion, credid fod hyn efallai'n fwy nag oedd angen (ac yn astudiaeth achos e, roedd y Cyngor Gwirfoddol Sirol wedi rhoi ystyriaeth o ddifrif i beidio cymryd y swydd oherwydd anhawster ffitio'r swydd o amgylch trefniadau eraill a roddwyd ar waith yn y cyfnod cydrhwng cyflwyno'r prosiect gwreiddiol a chytundeb gan WEFO i symud ymlaen) ac mewn eraill mae'n amlwg y teimlid ei fod yn annigonol.

### 3.4 Gweithgareddau ac allbynnau

Gan droi at weithgareddau swyddogion Creu'r Cysylltiadau, efallai yn fwy na dim arall mae'r dystiolaeth o'r cam cyntaf hwn o'r ymchwil yn dangos y ffyrdd amrywiol iawn y defnyddir yr adnodd a ddarperir gan y prosiect.

I raddau helaeth mae hyn yn adlewyrchu'r angen i swyddogion unigol addasu eu rôl i'r cyd-destun y maent ynddo. Yn y grwpiau ffocws ac yn yr astudiaethau achos soniodd swyddogion Creu'r Cysylltiadau am y ffyrdd y bu'n rhaid iddynt 'weithio o amgylch' swyddogion a phrosiectau eraill (megis y rhai a nodir yn 3.3 uchod) lle o bosibl o leiaf gallai fod perygl iddynt 'sathru ar draed' staff eraill.

Felly, yn un o'n hastudiaethau achos (e), roedd Prif Swyddog y Cyngor Gweithredu Sirol yn glir mai rôl fach iawn ddylai fod gan swyddog Creu'r Cysylltiadau wrth feithrin gallu mudiadau trydydd sector i dendro am gontractau sector cyhoeddus neu mewn trefnu hyfforddiant, gan fod adnoddau craidd cyfredol y Cyngor Gwirfoddol Sirol a chyflenwi prosiect Undeb Ewropeaidd yn darparu'n fwy na digonol ar gyfer y gwaith hwn ac y dylai'r swydd ganolbwyntio ar fylchau clir: dadleuwyd hefyd yma ac mewn dwy arall o'r astudiaethau achos (a ac c) fod risg difrifol o gynyddu disgwyliadau'n ormodol, o gofio mai cymharol ychydig o gyfleoedd gwirioneddol ar gyfer tendro oedd wedi dod i'r amlwg:

*'Yng nghyswllt cyrff Trydydd Sector yn bod yn fwy galluog i gydweithredu neu ar sail cyd-gynhyrchu ymddengys y bu cymaint o drafodaeth ar "gydweithio" i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd fel ei bod yn teimlo fod bron deimlad o losgi allan ymysg grwpiau Trydydd Sector gan nad yw'r cyfleoedd i gaffael, tendro neu gomisiynu wedi bod yno, ac maent yn dal heb fod ar gael'.*

Yn fwy cyffredinol, nododd aelod o grŵp ffocws:

*'Mae rhai pethau y byddwn yn hoffi eu gwneud gyda meysydd o waith ond dwi ddim yn gallu symud ymlaen oherwydd bod angen un ai i mi eu cael nhw* [cyd swyddogion Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn gwneud gweithgareddau gyda thema debyg] *i gefnogi neu maen nhw eisiau ei wneud eu ffordd arbennig nhw, y ffordd maen nhw bob amser wedi'i wneud.'*

Yn wahanol i hyn, mewn ardal astudiaeth achos arall (b) lle'r oedd cysylltiadau ardderchog gyda'r awdurdod lleol, teimlai'r swyddog fod llai o rôl ar gyfer Creu'r Cysylltiadau yn nhermau defnyddio llais y dinesydd, oherwydd y gellid ystyried bod hyn yn torri ar draws strategaeth ymgysylltu yr awdurdod lleol a chyrff cyhoddus eraill:

*'Mae'r gweithredu* [yn cyfeirio at lais y dinesydd] *wedi'i seilio'n fwy o amgylch cyrff trydydd sector yn hytrach na'r defnyddwyr eu hunain. Felly dyw e ddim yn rhywbeth yr ydyn ni'n ei weld fel blaenoriaeth oherwydd pe bydden ni, fe fyddai hynny'n camu ar draed cyrff trydydd sector sy'n casglu eu gwybodaeth eu hunain ar ddefnyddwyr gwasanaeth ... Mae'n rhaid ni fod yn ofalus hefyd nad ydyn ni'n lledaenu ein hunain hyd yn oed yn fwy tenau nag ydyn ni*

*eisoes. Felly mae'r hyn yr ydyn ni'n ei wneud mewn gwirionedd am ddod â'r trydydd sector a'r sector cyhoeddus at ei gilydd.'*

Ochr arall y geiniog i hyn yw yr ymddengys fod swyddogion Creu'r Cysylltiadau yn aml yn cael eu defnyddio i lenwi bylchau a ddaeth i'r amlwg o fewn y cyd-destun lleol, er enghraifft darparu swyddogaeth ysgrifenyddiaeth i'r Pwyllgor Compact lleol (a nodwyd gan aelod o grŵp ffocws a hefyd yn astudiaeth achos b) neu wasanaethu fforymau oedd yn bodoli eisoes, megis y rhwydwaith Plant a Phobl Ifanc (astudiaeth achos e), oedd yn flaenorol wedi ei gefnogi gan aelod neilltuol o staff, fforwm Neuaddau Cymunedol (astudiaeth achos c) neu Rwydwaith Amgylcheddol y dywedwyd ei fod yn wynebu trafferthion mewn ardal Cyngor Gwirfoddoli Sirol arall. Yn astudiaeth achos a, roedd y swyddog Creu'r Cysylltiadau, oedd â phrofiad sylweddol o fewn y sector yn lleol, yn canolbwyntio i raddau helaeth ar gyflawni dau allbwn penodol (y ddau angen datblygu mwy o gydlynu a chydweithredu rhwng cyrff trydydd sector yn lleol) dan Gynllun Integredig Sengl yr ardal lle'r oedd yr arweiniad wedi ei glustnodi i'r Cyngor Gwirfoddol Sirol, heb fawr o amser ar ôl ar gyfer rhannau eraill y rôl fe y’i rhagwelwyd yn y Cynllun Busnes.

O'r dystiolaeth ar y cardiau adrodd, ymddangosai hefyd fod swyddogion Creu'r Cysylltiadau wedi eu defnyddio'n eithaf eang (mewn chwe achos o leiaf) i dynnu ynghyd ymatebion y trydydd sector yn lleol i ddogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru ar seilwaith y trydydd sector, 'Parhad a Newid', yn cynnwys datblygu fersiynau 'rhwydd eu darllen' a chynnal digwyddiadau ymgynghori. Mewn o leiaf dair ardal, bu gan swyddogion Creu’r Cysylltiadau rôl sylweddol wrth drefnu fforymau neu ddigwyddiadau trydydd sector.

Roedd tasgau penodol eraill a gyflawnwyd gan swyddogion Creu'r Cysylltiadau yn cynnwys:

- Ymchwil ac ymgynghoriad ar effaith diwygiadau lles y Deyrnas Unedig ar y boblogaeth leol (mewn nifer o achosion);

- Cefnogi sefydlu prosiectau Lleisiau Lleol[96], un ai drwy drefnu digwyddiadau neu helpu gyda chynefino staff newydd (mewn nifer o achosion);
- Trefnu hyfforddiant oedd â chysylltiad anuniongyrchol yn unig gyda meithrin gallu i ymgysylltu gyda dylunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus e.e. rheoli straen;
- Gweithio ar gynllunio amddiffyn rhag llifogydd;
- Hwyluso cydweithredu rhwng undebau credyd i ymateb i newidiadau mewn budd-daliadau tai;
- Rôl sylweddol mewn datblygu Compact Lluoedd Arfog lleol;
- Mewn un achos, datblygu ac mewn eraill weithio gyda phrosiectau a ariannwyd dan brosiect ehangach Byrddau Gwasanaethau Lleol yr ESF i sicrhau lefel sylweddol o ymgyfraniad ac ymwybyddiaeth y trydydd sector.

Er bod y tasgau penodol hyn yn ffitio'n rhesymol gysurus o fewn cysyniad cyffredinol rôl swyddog Creu'r Cysylltiadau yn y rhan fwyaf o achosion, maent hefyd yn dangos dull gweddol fanteisgar at ddefnyddio'r adnodd ychwanegol a ddarperir gan y prosiect. Nid yw hyn yn syndod o gofio am y cyd-destun y mae Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn gweithredu ynddo, gan ymdopi â nifer o ffrydiau cyllid yn ychwanegol at y cyllid craidd a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru:

*‘Oherwydd bod y trydydd sector wedi gorfod bod yn bragmatig iawn ... mae'r ffordd o feddwl 'os oes arian ar gael ar gyfer beth y gallwn ni ei ddefnyddio' wedi bod yn amlwg'.*

Awgrymodd y gwaith maes hefyd y bu llawer i swyddogion Creu'r Cysylltiadau ei ddysgu mewn cyfnod byr, yn neilltuol lle nad oedd ganddynt brofiad blaenorol o weithio o fewn y trydydd sector neu'n fwy penodol mewn Cynghorau Gwirfoddol Sirol, gyda un o'r rhanddeiliaid yn dweud:

[96] Mae Lleisiau Lleol yn rhaglen ariannu strategol gan Gronfa Loteri Fawr yng Nghymru ac yn darparu cyllid i rai Cynghorau Gwirfoddol Sirol i weithredu portffolio o brosiectau sydd â'r nod o ddefnyddio barn defnyddwyr gwasanaeth wrth gynllunio gwasanaethau cyhoeddus.

*‘Maen nhw wedi bod angen llawer o amser i ddod i ddeall yn union yr hyn y dylen nhw fod yn ei wneud.'*

Yn yr un modd dywedodd aelod o grŵp ffocws:
*‘Gan fy mod i'n newydd i'r ardal, roedd yn rhaid i mi dreulio llawer o amser yn ffurfio perthynas gydag uwch reolwyr o fewn partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Lleol a dim ond nawr ydw’n symud i lawr i'r gwahanol grwpiau'.*

Yn y ddau grŵp ffocws, siaradodd yr aelodau fod y broses sefydlu wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl a hefyd amlygwyd her adeiladu perthynas o fewn cyrff sector cyhoeddus mawr a chymhleth, yn neilltuol yng nghyd-destun newidiadau cyson mewn staff.

Cafodd llawer eu synnu hefyd nad oedd gan eu Cyngor Gwirfoddol Sirol wybodaeth fwy manwl ar y trydydd sector yn eu hardaloedd, er enghraifft wybodaeth ar ba gyrff oedd eisoes yn darparu gwasanaethau cyhoeddus dan gontract neu gytundebau lefel gwasanaeth i gyrff cyhoeddus neu oedd â diddordeb penodol mewn darparu gwasanaethau o'r fath yn y dyfodol.

I rai, roedd yn amlwg na fu'r swydd yr hyn a ddisgwylient, a'i bod yn parhau'n eithaf cyfnewidiol. Dywedodd un aelod o grŵp ffocws, oherwydd bod y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn cynnwys popeth, ei bod yn anodd tynnu ffiniau:
*'Mae'n anodd peidio cael eich gweld fel adnodd ychwanegol ... Rwyf wedi gorfod dweud wrth Brif Swyddog y Cyngor Gweithredu Sirol sawl gwaith na fyddwn yn gallu gwneud rhywbeth yr oedd wedi gofyn i mi fod yn gyfrifol amdano'.*

Rhybuddiodd un arall am beryglon gael eu sugno i weithgareddau *'gwagle adnoddau'.*

Gan droi at ystyried gwahanol elfennau rôl swyddogion Creu'r Cysylltiadau fel yr amlinellir yn y disgrifiad swydd enghrefftiol ac a grynhoir yn y model rhesymeg yn Adran 2.4, byddai'n ymddangos mai **cynrychiolaeth a**

**gwybodaeth** oedd rhan helaethaf gwaith llawer o swyddogion Creu'r Cysylltiadau. Er nad oedd swyddogion Creu'r Cysylltiadau yn aml yn cael eu gwahodd i fynychu cyfarfodydd Byrddau Gwasanaethau Lleol eu hunain, roeddent yn tueddu i fod yn weithgar mewn is-grwpiau (er enghraifft, ar ymgysylltu) a fforymau oedd yn cefnogi'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol, a hefyd yn aml yn cymryd rhan mewn grwpiau presennol gan ddod ynghyd â chyrff trydydd sector gyda diddordeb neu thema gyffredin. I rai, roedd mynychu'r cyfarfodydd hyn a rhoi adroddiad amdanynt yn elfen sylweddol o'u llwyth gwaith:

*'Rydyn ni'n troi lan ym mhopeth, yn cynnig hwyluso cyfarfodydd, dim ond i gael ein troed yn y drws; mae llawer o stwff 'bwrw dy fara ar wyneb y dyfroedd.'*

Roedd nifer fach o gyfweleion yn bryderus fod swyddogion Creu'r Cysylltiadau yn canolbwyntio gormod gynrychioli'r sector eu hunain mewn cyfarfodydd partneriaeth yn hytrach na hwyluso ymgyfraniad cynrychiolwyr gyda setiau sgiliau cywir, er yn gyffredinol roedd y rhan fwyaf o gyfweleion awdurdodau lleol mewn ardaloedd astudiaethau achos (ac eithrio astudiaeth achos d) yn fodlon gyda'r mewnbynnau o'r Cyngor Gwirfoddol Sirol.

Dywedwyd fod lledaenu gwybodaeth ar ddatblygiadau Byrddau Gwasanaethau Lleol hefyd yn rhan allweddol o rôl llawer o swyddogion Creu'r Cysylltiadau, oedd yn fater o bryder ar ran o leiaf un rhanddeiliad cenedlaethol:

*'Mae gen i ofn ofnadwy fod y cyfan yn ymwneud â chynhyrchu mwy a mwy o ddeunydd'.*

Mewn un ardal astudiaeth achos (b), er enghraifft, roedd datblygu a chynnal gwefan arbennig oedd yn rhoi manylion trefniadau a fforymau partneriaeth lleol a rhoi gwybodaeth i gefnogi cynrychiolwyr trydydd sector i gysylltu gyda neu oedd eisoes ar y partneriaethau a fforymau lleol hynny yn brif ffocws i'r prosiect: mae'r wefan hefyd yn galluogi pobl i bleidleisio dros gynrychiolwyr ar fforymau ac mewn partneriaethau pan hysbysebir lleoedd gwag.

Fodd bynnag, fel y nodir yn Adran 3.1 uchod, ymddengys mai cymharol ychydig o wybodaeth oedd gan lawer o Gynghorau Gwirfoddol Sirol am ba gyrff trydydd sector oedd un ai'n cymryd rhan neu â diddordeb mewn darparu gwasanaethau cyhoeddus, ac ar gyfer rhai o swyddogion Creu'r Cysylltiadau, roedd cynnal ymarferiad mapio yn hanfodol er mwyn medru targedu gwybodaeth yn effeithlon; mae cardiau adrodd o leiaf bedwar o'r swyddogion yn cyfeirio at gynnal gwaith mapio o'r fath. Fel canlyniad ymddangosai fod rhai Cynghorau Gwirfoddol Sirol (yn cynnwys yn ardaloedd astudiaeth achos d ac e) yn amharod i gymryd rhan yn yr arolwg gwaelodlin y bwriedid ei defnyddio ar draws yr holl brosiect ddiwedd 2013.

Yn nhermau **mewnbwn i gynllunio gwasanaeth,** roedd llai o dystiolaeth yn y gwaith maes o weithgareddau cadarn yn gysylltiedig â hyn, er, fel y nodwyd yn flaenorol, mae sicrhau y caiff safbwynt y trydydd sector ei glywed mewn trafodaethau lefel uchel ar y materion hyn yn nod allweddol cynrychiolaeth ar y Byrddau Gwasanaethau Lleol a fforymau cysylltiedig. Fodd bynnag, dywedodd rhai o'r cyfweleion fod diffyg cyfatebiaeth rhwng ffocws y prosiect ar y Bwrdd Gwasanaethau Lleol a'r pwyslais ar gynllunio gwasanaethau, gan fod y Byrddau Gwasanaethau Lleol yn gweithredu ar lefel mor strategol fel nad oeddent mewn gwirionedd yn ymwneud â materion ymarferol sut y dylid darparu gwasanaethau.

Roedd yr un pwynt yn berthnasol ar gyfer **mewnbwn i ddarpariaeth gwasanaethau.** Roedd llawer o amrywiaeth hefyd yng nghyswllt y rhan yma o waith swyddogion Creu'r Cysylltiadau. Mewn rhai achosion, roedd swyddogion yn ymwneud yn helaeth â threfnu a darparu hyfforddiant i gyrff trydydd sector ar faterion yn gysylltiedig â chaffael (un ai'n uniongyrchol neu drwy wneud trefniadau gyda darparwyr eraill fel Menter a Busnes, a ariannir gan Lywodraeth Cymru). Felly, mewn un ardal astudiaeth achos (c), roedd swyddog Creu'r Cysylltiadau wedi trefnu cyfres hir o hyfforddiant un ai ar ben ei hun neu mewn cysylltiad gyda swyddogion eraill yn yr un Cyngor Gwirfoddol Sirol neu swyddogion Creu'r Cysylltiadau mewn ardaloedd cyfagos, yn cynnwys:

- gweithdy 'Cael eich Tŷ mewn Trefn';

- gweithdy 'Cydraddoldeb ac Amrywiaeth';
- gweithdy rheolaeth amgylcheddol 'Draig Werdd';
- digwyddiad 'cyd-gynhyrchu' yn cynnwys gweithdy 'Sut i Dendro' a gyflwynwyd gan Menter a Busnes;
- gweithdy 'Symleiddio Systemau Sicrwydd Ansawdd';
- digwyddiad yn cynnwys y Rhwydwaith Menter Gymdeithasol;
- siaradwyr o'r Cyngor a'r Bwrdd Gwasanaethau Lleoli i fynychu digwyddiad Rhwydwaith Iechyd a Gofal Cymdeithasol gyda ffocws ar dendro;
- cyflwyniad i'r trydydd sector ar 'y broses dendro, caffael a'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol'.

Yn wahanol i hyn, fel y nodir achos, mewn ardaloedd astudiaethau achos eraill (megis e), ychydig iawn oedd o ymwneud â hyfforddiant neu feithrin gallu, gydag eithriad rhoi trefniadau ar waith ar gais WCVA (yn arbennig hyfforddiant ar ddeg egwyddor ymgysylltu Cyfranogaeth Cymru) oherwydd y teimlid fod gweithgareddau o'r fath yn cael eu gwneud mewn mannau eraill o fewn y Cynghorau Gwirfoddol Sirol.

Yn nhermau **llais y dinesydd,** unwaith eto ymddengys fod llawer iawn o amrywiaeth ym maint gwaith swyddogion unigol Creu'r Cysylltiadau, eto'n rhannol yn dibynnu ar y gallu mewn mannau eraill yn y Cynghorau Gwirfoddol Sirol (roedd yn neilltuol o berthnasol yma p'un ai a fu'r Cyngor Gwirfoddol Sirol yn llwyddiannus ai peidio wrth gynnig am gyllid Lleisiau Lleol y Gronfa Loteri Fawr) ond hefyd yn adlewyrchu cam datblygu Cynghorau Gwirfoddol Sirol.

Mewn rhai ardaloedd (er enghraifft, yn astudiaethau achos a ac e), roedd gan swyddog Creu'r Cysylltiadau rôl sylweddol wrth weithio gyda'r awdurdod lleol ar ddatblygu strategaeth ymgysylltu a threfnu digwyddiadau ymgynghori â'r cyhoedd o amgylch y dadansoddiad anghenion ac yn un o'r rhain (a) roedd gan y swyddog hefyd rôl allweddol ym Mhanel Craffu'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol gyda hanner yr aelodau'n aelodau anweithredol o awdurdodau lleol a

hanner o'r trydydd sector yn lleol. Mewn trydydd achos (astudiaeth achos d), roedd y swyddog hefyd yn ymwneud â threfnu digwyddiadau ymgynghori ar y drafft Gynllun Integredig Sengl, er bod hyn i raddau helaeth yn gysylltiedig â chonsyrn fod prosesau'r awdurdod lleol ei hun yn annigonol. Soniodd aelodau grwpiau ffocws hefyd am weithio gyda'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu oedd newydd eu hethol ar eu strategaeth ymgysylltu a sicrhau mewnbwn i Baneli Craffu awdurdodau lleol, er enghraifft. Ond mewn ardaloedd eraill (megis astudiaeth achos B), ymddangosai ymgyfraniad gyda'r elfen hon o brosiect Creu'r Cysylltiadau yn llawer llai amlwg, gydag un aelod o grŵp ffocws er enghraifft yn dweud:
*'Dydyn ni ddim wedi gwneud llawer ar lais y dinesydd gan fod ein Bwrdd Gwasanaeth eisoes yn cynnal ymgynghoriad'.*

Yn gyffredinol, dynododd cyfweleion amrywiaeth o ffactorau cyd-destun oedd yn penderfynu i ba raddau y gallent gyflawni'r rôl a ragwelwyd yn y Cynllun Busnes a'r patrwm o ddisgrifiad swydd, a thrafodwyd nifer ohonynt eisoes. Roedd hyn yn cynnwys:

- Ansawdd cyffredinol y berthynas rhwng y Cyngor Gwirfoddol Sirol a'r Awdurdod Lleol (yr ystyriwyd yn gyffredinol ei bod yn ymarferol yn rheoli'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol, beth bynnag oedd y ddamcaniaeth). Lle'r oedd cysylltiadau'n dda, a'r Cyngor Gwirfoddol Sirol wedi sefydlu'n dda (fel yn astudiaethau achos a, b ac e) gallai hyn fod yn ffactor alluogi ond gallai hefyd olygu fod ffocws swyddog Creu'r Cysylltiadau ar lenwi bylchau yn nhermau symud ymlaen â'r gwaith ar yr agenda gwasanaethau cyheoddus lle nad oedd y Cyngor Gwirfoddol Sirol eisoes wedi dyrannu adnoddau (er enghraifft astudiaeth achos a). Lle'r oedd yn wael (yn fwyaf arbennig yn astudiaeth achos d), roedd yn gwneud llawer o'r rôl a ragwelwyd fwy neu lai'n amhosibl;
- Yr adnoddau oedd ar gael i'r Cyngor Gwirfoddol Sirol a'r graddau yr oedd agweddau allweddol o swydd Creu'r Cysylltiadau, fel y'i lluniwyd i ddechrau, eisoes yn cael eu cyflawni gan staff eraill yn cael eu hariannu gan brosiectau a ffrydiau cyllid eraill;

- Cynnydd (neu ddiffyg hynny) yn nhermau datblygu'r Cynllun Integredig Sengl, ac (mewn rhai achosion) ailsefydlu'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol (yn cynnwys lle'r oedd Byrddau Gwasanaethau Lleol ar y cyd yn cael eu treialu yng Nghonwy/Sir Ddinbych, Ynys Môn Gwynedd a Rhondda Cynon Taf/Merthyr Tudful) a'i strwythurau i roi ystyriaeth i gyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn 2012[97]. Mewn llawer o achosion (er enghraifft, astudiaethau achos c ac e), dadleuwyd fod yr ansicrwydd am strwythurau a'r ffocws ar fynd i'r afael gyda dull newydd (a gweddol gaeth) o gynllunio strategol yn golygu fod swyddogion Creu'r Cysylltiadau yn ceisio gweithio mewn gwagle a lle'r oedd llygad uwch swyddogion wedi ei dynnu oddi ar y bêl yn nhermau materion ymarferol comisiynu. Felly, dywedodd un aelod o astudiaeth achos:

  *'Roedd y cyfarwyddyd a ddaeth gyda'r Cynllun Integredig Sengl yn dweud eu bod eisiau gostwng nifer y partneriaethau. Ond yn sicr yn fy ardal i roedd gwagle pan oedd y Cynllun yn cael ei ddatblygu am bwy oedd yn arwain ar beth a sut olwg fyddai ar bartneriaethau newydd yn y dyfodol. Mae hi'n dal heb fod yn glir iawn'.*

  Ar y llaw arall, dadleuwyd y gallai fod yn anodd canfod unrhyw beth ddefnyddiol am Fyrddau Gwasanaethau Lleol a'u gwaith i'w ledaenu oherwydd ei fod yn ymddangos mor haniaethol i'r rhan fwyaf o gyrff trydydd sector. Ar yr un pryd, roedd y ffaith fod popeth yn y pair yn rhoi cyfleoedd i swyddogion Creu'r Cysylltiadau 'wneud eu hunain yn ddefnyddiol', er enghraifft drwy fod â rôl arweiniol mewn datblygu gwaith ar ymgysylltu (astudiaeth achos a ac e, er enghraifft);
- Effaith toriadau ariannol ar awdurdodau lleol a chyrff sector cyhoeddus eraill. Er mewn rhai achosion (e.e. gan gyfweleion awdurdodau lleol yn astudiaethau achos c ac e), ystyriwyd bod hyn yn cyflwyno cyfleoedd (yn nhermau cynnig cyfleoedd newydd i ddarparu gwasanaethau anstatudol megis llyfrgelloedd a chanolfannau cymunedol drwy'r sector gyda mwy o ddefnydd o fewnbwn gwirfoddol), roedd yn thema gyffredin

[97] Cyhoeddwyd y Cynllun Integredig Sengl cyntaf yn yr Ardal Cydgyfeirio gan Sir Gaerfyrddin ym Medi 2011, gyda Sir Ddinbych yn dilyn ym mis Tachwedd 2011 a Chonwy ym mis Chwefror 2012. Cyhoeddwyd Cynlluniau Integredig Sengl ar gyfer ardaloedd eraill rhwng Ebrill 2012 a Mawrth 2013, ac eithrio Abertawe, lle cyhoeddwyd y Cynllun Integredig Sengl gyntaf ym mis Gorffennaf a Gwynedd, nad yw wedi cyhoeddi Cynllun Integredig Sengl.

bod awdurdodau lleol yn canolbwyntio gormod ar ateb yr argyfwng uniongyrchol - ac mewn llawer o achosion yn ceisio lleihau colli swyddi - i feddwl yn greadigol:

*'Gyda'r toriadau sy'n cael eu cyhoeddi mae pawb yn ceisio bod yn amddiffynnol. Nid yw pobl yn gwneud penderfyniadau, nac yn fodlon ymgysylltu. Ystyr hyn yw bod ceisio cyflwyno syniadau newydd yn debyg i weithio gyda thriog. Nid yw pobl yn sylweddoli fod cyfleoedd yn dod gyda thoriadau a bod yn rhaid i'r trydydd sector fod yn fwy deinamig wrth gyflwyno'r achos yma'.*

Gan adleisio hyn, credai un rhanddeiliaid cenedlaethol hefyd fod y trydydd sector ei hun wedi methu llunio naratif newydd i ysgogi'r math o syniadau newydd oedd eu hangen, er y gobeithid y medrai papur diweddar y WCVA, 'Rhoi Pobl yn y Canol' ddechrau'r drafodaeth yma;

- Trosiant uchel staff fel sgil-effaith y pwysau ariannol ar y sector cyhoeddus a'r anawsterau a achosodd hyn ar gyfer *cynnal* y cysylltiadau:

  *'Ble bynnag mae newid o amgylch mewn pobl, yna mewn gwirionedd rydych chi'n dechrau o'r dechrau i adeiladu'r berthynas honno'.*

  Amlygwyd hyn er enghraifft gan un aelod o grŵp ffocws a nododd fod y ddwy swydd yn yr awdurdod lleol oedd bwysicaf i'w rôl hi wedi'i llenwi gan dri unigolyn mewn blwyddyn mewn un achos a gan ddau unigolyn mewn blwyddyn yn yr achos arall, ac yr ymddangosai fod cynllun allweddol gyda'r Gwasanaeth Tân ac Achub wedi methu fel canlyniad i newid mewn personél;
- Effaith toriadau a'r sefyllfa economaidd anodd ar gyrff trydydd sector eu hunain, drwy doriadau neu ostyngiadau mewn grantiau oedd yn gostwng gallu sefydliadau i ymwneud ag agendâu mwy strategol megis dylunio gwasanaethau cyhoeddus. Yn ardal un astudiaeth achos (astudiaeth achos c), roedd y penderfyniad i roi ystod gyfan o wasanaethau oedd yn flaenorol wedi eu darparu drwy gytundebau lefel gwasanaeth gyda chyrff unigol yn y trydydd sector allan i dendr (heb roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith) wedi achosi ymyriad sylweddol o fewn y sector;

- Yr ansicrwydd a grëwyd gan adolygiad Llywodraeth Cymru o seilwaith y trydydd sector, gyda rhai cyfweleion yn ystyried bod hynny yn anesmwytho ac yn tynnu sylw Cynghorau Gwirfoddol Sirol;
- Ansicrwydd am gyfeiriad polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer y dyfodol yn nhermau rôl awdurdodau lleol yn comisiynu gwasanaethau. Nododd nifer o gyfweleion y tensiwn rhwng ffocws prosiect Creu'r Cysylltiadau ar Fyrddau Gwasanaethau Lleol a'r lefel awdurdod lleol a ffocws cynyddol polisi Llywodraeth Cymru ar gydweithredu rhanbarthol. Er bod llawer o swyddogion Creu'r Cysylltiadau yn ei chael yn anodd trafod gweithio rhanbarthol o gwbl, awgrymodd y rhai a wnaeth hynny fod Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn gyffredinol yn dal i'w chael yn anodd cynefino gyda'r strwythurau rhanbarthol oedd yn dod i'r amlwg. Ymhellach, efallai yn neilltuol yng nghyd-destun de orllewin Cymru (lle'r oedd peth anghysondeb rhwng ardal y Bae Gorllewinol a strwythurau rhanbarthol eraill) ac oherwydd yr ansicrwydd yn ymwneud â Chomisiwn Williams, teimlai rhai bod rhywfaint o 'falltod cynllunio' yn nhermau amharodrwydd awdurdodau lleol i wneud penderfyniadau ar gomisiynu gwasanaethau cyn y deuai trefniadau ar gyfer y dyfodol yn gliriach.

Yn olaf, yn nhermau allbynnau ffurfiol, nododd llawer o'r rhai y gwnaethom eu cyfweld nad oedd y targedau a gytunwyd gyda WEFO mewn gwirionedd yn dangos naws y prosiect, tra'n cydnabod ei bod yn bwysig eu cyflawni. Mae data Llywodraeth Cymru yn awgrymu y bu cynnydd rhesymol ar y targedau allbwn, fel y dangosir yn Nhabl 3.2 (ar y dudalen nesaf) - er y dylid nodi mewn llawer achos nad oes tystiolaeth lawn eto o'r allbynnau a hawlir.

Yn gyffredinol, teimlai cyfweleion y byddai targedau WEFO yn cael eu cyrraedd heb anhawster, ac eithrio lleoedd secondiad. Teimlai nifer o gyfweleion fod y targed yn heriol, gan iddo gael ei seilio ar yr hyn a brofwyd yn dybiaeth ddi-sail y gallai llawer o swyddi swyddogion Creu'r Cysylltiadau gael eu llenwi gan secondiadau, er bod cyfarwyddyd gan WCVA wedi pwysleisio y gellid hefyd gyfrif secondiadau ffurfiol yn erbyn y targed yma.

*Tabl 3.2: Cynnydd yn erbyn targedau WEFO*

| Allbwn | Targed | Cyflawnwyd |
|---|---|---|
| Cynlluniau lledaenu | 15 | 13 |
| Cynlluniau i gefnogi datblygiad Byrddau Gwasanaethau Lleol | 1 | 0 |
| Trefniadau cydweithredu gyda chyrff sector cyhoeddus | 13 | 6 |
| Lleoedd secondiad | 12 | 1 |
| Cytundebau cydweithredu o fewn y trydydd sector[98] | D/B | 5 |

### 3.5 Canlyniadau ac Effaith

Yn amlwg, gan nad oedd y prosiect ond wedi bod yn mynd rhagddo am tua blwyddyn adeg y gwaith maes, ni fyddai'n realistig disgwyl llawer o dystiolaeth gadarn yn nhermau canlyniadau hyd yma ac roedd y rhan fwyaf o'r rhai y gwnaethom eu cyfweld wyneb-i-wyneb yn amharod i briodoli llwyddiannau sylweddol i'r prosiect hyd yma.

Fodd bynnag, yn ardaloedd rhai o'r astudiaethau achos (yn arbennig astudiaethau achos a b), roedd cyfweleion yn gadarnhaol iawn am y ffordd yr oedd adnoddau ychwanegol gan y prosiect yn arwain yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol (drwy ryddhau adnoddau prin yn y Cyngor Gwirfoddol Sirol) at welliannau yn ymgysylltiad y trydydd sector gyda dylunio a darpariaeth sector cyhoeddus. Yn astudiaeth achos a, er enghraifft, roedd y prosiect yn galluogi'r Cyngor Gwirfoddol Sirol i fod yn gyfrifol ei hunan am ddatblygu nifer o allbynnau craidd a ddynodwyd gan y Cynllun Integredig Sengl drwy wella cydweithio ymysg cyrff trydydd sector. Yn astudiaeth achos b, cafwyd canlyniadau cadarnhaol drwy ehangu'r ystod o gyrff trydydd sector yn ymwneud â gweithio partneriaeth a chreu dulliau adborth effeithiol iddynt i

[98] Ni chafodd y targed yma ei gytuno gyda WEFO ond cytunwyd ei fod yn fesur pwysig o lwyddiant ar gyfer y prosiect.

sicrhau eu bod yn cynrychioli’r sector, yn ogystal â thrwy roi mwy o allu i ryngweithio gyda chysylltiadau allweddol yn y sector cyhoeddus:
*‘Yr hyn yr ydym wedi gallu ei wneud gyda Creu'r Cysylltiadau na allem ei wneud yn flaenorol yw gweithio ar ddatblygu perthynas un i un gyda'r cyrff sector cyhoeddus. Yn flaenorol, roedd y cysylltiadau yn llawer mwy am fod yn aelodau o'r un grwpiau partneriaeth. Gallwn fod yn fwy rhagweithiol yn awr.'*

Yn yr ardaloedd hyn, roedd cyfweleion yn gyffredinol yn gadarnhaol iawn am y rhagolygon ar gyfer canlyniadau tymor hwy.

Yn y tair ardal astudiaeth achos arall, roedd cyfweleion yn sylweddol llai cadarnhaol, er yn achos dwy ohonynt (astudiaethau achos c ac e), roedd y partneriaid awdurdod lleol yn neilltuol serch hynny'n gwerthfawrogi gwaith y swyddog. Yn un ohonynt, roedd Prif Weithredwyr y Cyngor Gwirfoddol Sirol a'r swyddog Cysylltiadau Cyhoeddus eu hunain yn glir nad oedd y swyddog wedi gallu gwneud unrhyw wahaniaeth sylweddol oherwydd *"nad yw'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol wedi cyflawni dim, ac mae'r Bwrdd yn sylfaenol i allu Creu Cysylltiadau i wneud pethau'.* Mewn achos arall, ystyriwyd bod yr anawsterau yn ymwneud yn rhannol â'r cynnydd araf ar symud y Bwrdd Gwasanaeth Lleol o ddelio gyda strategaeth lefel uchel i faterion ymarferol, megis dylunio a chomisiynu gwasanaethau (oedd yn ei dro wedi ei waethygu gan ffocws ar ddelio gyda thoriadau cyllideb a 'malltod cynllunio' am ad-drefnu posibl ar lywodraeth leol) ac yn rhannol i'r llwyth gwaith dysgu oedd gan y swyddog Creu'r Cysylltiadau.

Yn y trydydd (astudiaeth achos d), roedd rôl y swyddog Creu'r Cysylltiadau yn anodd oherwydd perthynas wael y Cyngor Gwirfoddol Sirol a'r awdurdod lleol (gyda'r awdurdod lleol wedi cymryd camau'n ddiweddar i greu fforwm arall ar gyfer cyrff cymunedol, er enghraifft): yma, roedd y cynrychiolydd awdurdod lleol a gyfwelwyd yn amheus iawn os oedd y swyddog Creu'r Cysylltiadau'n debygol o gyflawni llawer, gan gwestiynu os oedd ffocws gwaith y swyddog (e.e. cylchlythyrau, hyfforddiant a mynychu cyfarfodydd) yn addas ac yn gwrthwynebu'r ffaith na fu unrhyw ymgynghori am gynnwys cynllun gweithredu’r swyddog.

Roedd llawer o aelodau'r grwpiau ffocws yn weddol gadarnhaol am yr hyn a gyflawnwyd hyd yma, gan adrodd cynnydd da wrth sefydlu eu hunain mewn trefniadau lleol (grwpiau partneriaeth, rhwydweithiau trydydd sector ac ati) a sefydlu perthynas waith dda gyda sefydliadau cyhoeddus a thrydydd sector: *'Mae popeth yn gweithio'n wirioneddol dda. Mae ganddon ni gynrychiolydd ar y Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Mae gennyf i, fy rheolwr llinell a swyddogion eraill o'r bartneriaeth yn aelodau o'r grwpiau thema a gweithredol'.*

Ystyriwyd bod y cysylltiadau hyn yn sylfaen hanfodol ar gyfer cyflawni'r canlyniadau a ddymunid, gyda'r cam nesaf yn ymwneud â *'dyfnhau hynny',* mynd ymhellach na dim ond cael cyfarfodydd i hefyd *'sicrhau ein bod yn rhoi gwerthoedd cyd-gynhyrchu ar waith yn ymarferol.'*

Ar yr un pryd, roedd llawer yn nerfus fod yr amserlenni ar gyfer y prosiect yn eithaf byr ac mewn gwirionedd yr hyn a wnâi llawer o'r gwaith oedd helpu i greu llwyfan ar gyfer newidiadau ac na fyddid yn gweld y manteision hyd yn llawer diweddarach.

Adleisiwyd y farn hon gan randdeiliaid eraill hefyd.

Ar y llaw arall, efallai, roedd ymatebwyr i'r arolwg ffôn yn weddol gadarnhaol am y 'cyfeiriad teithio' cyffredinol yn nhermau ymgysylltiad y trydydd sector gyda diwygio gwasanaethau cyhoeddus ac am y gwahaniaeth a wneir gan y prosiect - er unwaith eto mae angen pwyll oherwydd y gyfradd ymateb isel.

O'r 16 ymatebydd gyda gwybodaeth am rôl swyddog Creu'r Cysylltiadau (gyda llawer ohonynt, wrth gwrs, yn gweithio’n agos iawn gyda'r swyddog dan sylw), roedd bron bawb yn credu fod y swyddog Creu'r Cysylltiadau yn eu hardal un ai'n effeithlon iawn neu'n effeithlon ar draws pob un o bump 'dimensiwn' eu gwaith[99], ond roeddent yn neilltuol o gadarnhaol am eu rôl yn

[99] Lledaenu gwybodaeth am gynllunio gwasanaethau lleol, cynrychioli'r sector a gweitho gyda chomisiynwyr gwasanaethau cyhoeddus, meithrin gallu cyrff trydydd sector i ddylanwadu ar ddyluniad

lledaenu gwybodaeth am gynllunio gwasanaethau lleol (gyda saith yn dweud eu bod yn effeithlon iawn a phump yn dweud eu bod yn effeithlon). Yn ddiddorol, daeth bron yr holl sylwadau negyddol gan ymatebwyr o'r trydydd sector, yn hytrach na'u cymheiriaid yn y sector cyhoeddus.

Er y credai'r rhan fwyaf o'r cyfweleion a allodd roi sylwadau fod ymgyfraniad y trydydd sector mewn gwahanol agweddau o ddylunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus wedi parhau'r un fath dros y ddwy flynedd ddiwethaf, credai rhwng chwarter a thraean ei fod wedi cynyddu, gyda bron y cyfan ohonynt yn priodoli'r newid yn rhannol o leiaf i waith swyddog Creu'r Cysylltiadau. Yn yr un modd, roedd pob un o'r wyth ymatebydd a gredai fod gallu'r trydydd sector i ddylanwadu a darparu gwasanaethau cyhoeddus wedi cynyddu ers 2012[100] yn priodoli hyn i raddau helaeth (pedwar) neu i ryw raddau (pedwar) i swyddog Creu'r Cysylltiadau.

Ymhellach, credai 12 o'r cyfweleion (wedi'u rhannu'n gyfartal rhwng ymatebwyr o'r trydydd sector ac o'r sector cyhoeddus) fod cefnogaeth gan lywodraeth leol a darparwyr eraill yn y gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer ymgyfraniad y trydydd sector mewn dylunio gwasanaethau cyhoeddus wedi cynyddu[101] gyda'r cyfan heblaw un ohonynt yn priodoli hyn un ai i ryw raddau (deg) neu i raddau helaeth (un) i swyddog Creu'r Cysylltiadau[102]. Credai bron bob ymatebydd (24) y byddai'r galw am fewnbwn trydydd sector i ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus yn cynyddu dros y ddwy flynedd nesaf.

Credai mwyafrif ymatebwyr i'r arolwg (17 i gyd) fod cyrff trydydd sector yn fwy gwybodus am sut y gallent ddylanwadu ar ddyluniad gwasanaethau cyhoeddus [103], gyda'r rhan fwyaf o'r ohonynt hefyd yn credu y bu gan

---

gwasanaethau cyhoeddus i gynnig am a darparu gwasanaethau cyhoeddus, galluogi'r trydydd sector i ymgynghori'n fwy effeithiol gyda defnyddwyr gwasanaethau).

[100] Credai 14 fod gallu'r sector wedi aros yr un fath, un ei fod wedi gostwng a ni wyddai pedwar.

[101] Credai naw ei fod wedi aros yr un fath, un ei fod yn amrywio rhwng wahanol gyrff sector cyhoeddus ac ni wyddai pump.

[102] Ni wnaeth yr un arall ymateb i'r cwestiwn.

[103] Yn achos dylunio gwasanaeth, credai chwech na fu newid, un eu bod yn llawer llai gwybodus ac ni wyddai dau; yn achos darparu gwasanaeth, credai pedwar na fu newid, un eu bod yn llai gwybodus ac ni wyddai tri.

swyddog Creu'r Cysylltiadau ran wrth sicrhau'r gwelliant yma [104], tra credai naw ymatebydd i'r arolwg fod cydweithio rhwng cyrff gwirfoddol a chymunedol wedi cynyddu[105], gyda saith ohonynt yn priodoli hyn yn rhannol i swyddog Creu'r Cysylltiadau.

Yn fwy cyffredinol credai mwyafrif ymatebwyr yr arolwg (19 a 17 yn yr un drefn) fod dull gweithio'r Bwrdd Gwsanaethau Lleol a phartneriaethau allweddol a dyluniad a chynllunio gwasanaethau cyhoeddus wedi gwella dros y ddwy flynedd ddiwethaf, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn credu fod gwelliannau o'r fath yn rhannol o leiaf oherwydd cynnydd mewnbwn o'r trydydd sector. Credai 10 hefyd fod mewnbwn dinasyddion i ddyluniad a darpariaeth gwaanaethau lleol wedi cynyddu[106], gyda phawb heblaw un ohonynt yn priodoli hyn yn rhannol i rôl gynyddol y trydydd sector wrth hwyluso hyn.

### 3.6 Rheolaeth prosiect

Yn olaf, dangosodd y gwaith maes rai materion yn ymwneud â strwythur a rheolaeth prosiect yr ymddangosai fod ganddynt ddylanwad ar ei effeithlonrwydd a'i ragolygon ar gyfer llwyddiant.

Roedd dyluniad y prosiect wedi'i seilio ar fodel lle byddai swyddogion Creu'r Cysylltiadau yn cael eu cyflogi ac yn cael rheolwr llinell o fewn pob Cyngor Gwirfoddol Sirol ond y byddai ganddynt gyfrifoldeb adrodd  i reolwr prosiect WCVA (a thrwy'r swydd hon i dîm rheoli prosiect ehangach Llywodraeth Cymru). Er y defnyddiwyd y model hwn o'r blaen, ac er yr ystyrid ei bod yn hanfodol fod swyddogion Creu'r Cysylltiadau wedi ymwreiddio yn y Cynghorau Gwirfoddol Sirol (nid yn lleiaf oherwydd fod cefnogi'r Prif Swyddog yn eu rôl yng nghyswllt y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn rhan allweddol o'u rôl), teimlai nifer o'r cyfweleion (yn cynnwys rhai o swyddogion Creu'r Cysylltiadau) ei fod yn broblemus. Mewn rhai achosion roedd swyddogion

[104] Yn achos dylunio gwasanaeth, priodolodd pedwar y gwelliant i raddau helaeth i swyddog Creu'r Cysylltiadau, a naw i ryw raddau; yn achos darparu gwasanaeth, priodolodd pedwar y gwelliant i raddau helaeth i swyddog Creu'r Cysylltiadau ac wyth i ryw raddau.
[105] Credai deg ei fod wedi aros yr un fath ac ni wyddai saith.
[106] Dywedodd 10 ei fod wedi aros yr un fath ac ni wyddai chwech.

(mewn llawer o achosion yn aml yn newydd i'r sector) yn cael trafferth gyda dau strwythur gorchymyn ar wahân, gyda gwahanol bryderon a blaenoriaethau, yn rhannol yn adlewyrchu tensiynau ehangach rhwng rhai Cynghorau Gwirfoddol Sirol a WCVA ac yn rhannol yn adlewyrchu materion mwy strwythurol tîm rheolaeth prosiect oedd â ffocws pendant iawn ar y model Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau a ddatblygwyd ar gyfer y prosiect a Chynghorau Gwirfoddol Sirol a ddymunai ddefnyddio adnodd ychwanegol mewn modd hyblyg.

Credid yn eang y gwaethygwyd hyn gan y ffaith mai dim ond yn ddiweddar y llenwyd y swydd rheolwr prosiect ar ôl i lawer o swyddogion Creu'r Cysylltiadau unigol ddechrau yn eu swyddi. Ar y naill law, golygai hyn y bu gan WCVA lai o fewnbwn i'r disgrifiadau swydd unigol (oedd yn seiliedig ar, ond nid yn union yr un fath â'r disgrifiad swydd enghreifftiol) a phrosesau recriwtio nag y gallai fod, ac ar y llaw arall, mai dim ond ar ôl i swyddogion Creu'r Cysylltiadau ddechrau yn eu swyddi y dechreuwyd y broses o ddatblygu templedi ar gyfer cynlluniau prosiect lleol, cynlluniau gweithredu unigol ac adroddiadau adroddiad chwarterol: teimlai'r rhan fwyaf o'r rhai a gyfrannodd at y grwpiau ffocws y bu hyn yn anffodus:
*'Roedd gan y rheolwr prosiect y gwaith poenus o geisio tynnu'r model Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau at ei gilydd, gan ddefnyddio 15 model gwahanol iawn o'r hyn oedd yn digwydd mewn gwirionedd'.*

Yn ymarferol, ymddengys i'r broses o ddatblygu cynlluniau gweithredu unigol a mireinio'r templed adroddiadau chwarterol fynd â cryn lawer o amser ac ymdrech ar ran tîm WCVA ac i ryw raddau swyddogion unigol Creu'r Cysylltiadau. Fodd bynnag, nid oedd yn glir o'r gwaith maes fod y cynlluniau gweithredu mewn gwirionedd yn cyflawni'r bwriad o lywio'r prosiect ar lefel leol, fel y cydnabu rhanddeiliad cenedlaethol:
*'Mae'r Cynlluniau Gweithredu'n adlewyrchu'r hyn y mae'r prosiect yn ceisio ei wneud, ond mae'n fater gwahanol os yw'r swyddogion yn gwneud beth mae'r Cynlluniau Gweithredu'n ei ddweud'.*

Er mewn rhai achosion, ystyrid bod Cynlluniau Gweithredu yn llywio gwaith dydd-i-ddydd y swyddogion, mewn llawer o achosion eraill nid oedd cyfeiriad rheolaidd atynt, gydag aelodau grwpiau ffocws yn dadlau, er enghraifft, fod yn rhaid iddynt ymateb i gyfleoedd penodol fel y codent ac nad oedd y cynllun gweithredu (a'r cerdyn adrodd) yn eu galluogi i amlygu rhai o agweddau pwysicaf eu gwaith (er enghraifft, darparu'r ysgrifenyddiaeth i'r Compact lleol). Yn y cyd-destun hwn, ystyrid y bu'r ymweliadau archwiliad diweddar gan WCVA yn ddefnyddiol wrth alluogi swyddogion i esbonio'n fwy manwl sut y teilwriwyd eu rôl i gyd-destun penodol eu hardal leol.

Y mater allweddol yma yw'r gwrthgyferbyniad rhwng dull cymharol gaeth y cynllun gweithredu a'r templed ar gyfer adroddiadau (yn seiliedig ar fframwaith Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau a'r pum canlyniad allweddol, gyda gofyniad i swyddogion ddangos peth gweithgaredd yn gysylltiedig â phob un o'r canlyniadau) a'r ffordd y defnyddiwyd yr adnodd yn ymarferol.

Bu trosiant staff, yn nhermau staff craidd rheoli prosiect (gyda rheolwr y prosiect wedi ymddiswyddo i fynd i swydd arall ddiwedd mis Hydref, bron yn syth ar ôl i weinyddydd ddechrau ar swydd ran-amser am y tro cyntaf) ac yn nhermau swyddogion Creu'r Cysylltiadau eu hunain, lle bu newid mewn o leiaf dair o'r 15 swydd (er dim o'r rhai yn ardaloedd yr astudiaethau achos), tra bu'r swyddog ar absenoldeb salwch am nifer o fisoedd mewn pedwerydd achos. Er nad yn anaferol ynddo'i hun ym mhrosiectau ESF, lle mae contractau am gyfnod penodol ac yn aml (fel yn yr achos hwn) yn gymharol gyfnod byr, mae'n amlwg ei fod yn ymyrryd yn arbennig lle mae'r prosiect yn newydd ac yn dal i ddatblygu.

Yn olaf, yn nhermau trefniadau cydlynu, mae grŵp swyddogion Creu'r Cysylltiadau wedi cwrdd bum gwaith gyda phresenoldeb gweddol dda gan y swyddogion a staff WCFA a Llywodraeth Cymru. Roedd yr adborth gan gyfweleion am y grŵp yn gyffredinol gadarnhaol, er y teimlai rhai aelodau grwpiau ffocws na fu digon o amser i swyddogion eu hunain drafod yr hyn oedd yn gweithio a beth oedd yn broblemus (*'yn gyffredinol nhw ac nid ni sydd*

*wedi gwneud y siarad').* Yn ychwanegol, mae WCVA wedi annog cyfarfodydd rhanbarthol oedd hefyd yn cael eu gwerthfawrogi gan gyfweleion.

Fodd bynnag, er y gellid dadlau fod y grŵp swyddogion yma'n cyflawni rôl y Grŵp Llywio a ragwelwyd yn y Cynllun Busnes, ac er y deellir fod adroddiadau rheolaidd am gynnydd y proseict i Fwrdd WCVA (sy'n cynnwys cynrychiolaeth o Gynghorau Gwirfoddol Sirol), teimlai nifer fechan o gyfweleion y byddid wedi bod yn ddymunol cael grŵp rheoli prosiect mwy strategol, yn cynnwys rheolwyr o rai o'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol fel bwrdd seinio i lywio'r prosiect.

## 4. CASGLIADAU

Gall yn rhwydd fod yn rhy gynnar i ddod i unrhyw gasgliadau pendant am gynnydd prosiect Creu'r Cysylltiadau ar y cam cynnar iawn yma o'r ymchwil. Mae'r sylfaen tystiolaeth yn nhermau data caled ar ran y trydydd sector wrth ddylunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus a hefyd ein gwaith maes hyd yma yn gyfyngedig. Ymddengys mai un broblem yma yw, er bod gan y prosiect lawer o uchelgais, cymharol ychydig o'r rhai y gellid disgwyl iddynt fod â diddordeb (yn neilltuol yn nhermau'r sector cyhoeddus) sydd wedi dod i gysylltiad uniongyrchol â'r prosiect hyd yma. Problem arall yw bod angen pwyll wrth ddod i unrhyw gasgliadau cyffredinol, o gofio am y gwahaniaethau sylweddol iawn rhwng ardaloedd ein hastudiaethau achos.

Serch hynny, mae nifer o faterion yn dod i'r amlwg yn gymharol glir:

- Mae nodau ac amcanion y prosiect yn gydnaws â themâu cyson polisi Llywodraeth Cymru dros y degawd diwethaf yn nhermau'r angen i gynyddu rhan y trydydd sector wrth ddylunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus a chryfhau rôl llais y dinesydd wrth lunio gwasanaethau cyhoeddus;
- Mae cefnogaeth sylweddol i gysyniad cyffredinol y prosiect, er fod llawer o'r rhai sy'n gysylltiedig yn credu ei fod yn or-uchelgeisiol o gofio am faint y prosiect a'r amserlen fer ar gyfer ei gweithredu;
- Ymddengys i'r oedi rhwng creu'r prosiect a'i weithredu gael effaith negyddol, gyda chryn ansefydlogrwydd a newid o fewn amgylchedd gweithio partneriaeth ar lefel leol yn ei gwneud yn anos i swyddogion Creu'r Cysylltiadau sefydlu eu hunain;
- Mae'r gwaelodlin ar gyfer y prosiect yn wahanol iawn o un ardal (ac i ryw raddau o un gwasanaeth cyhoeddus) i'r nesaf. Er yr ymddengys fod lefel resymol o ymgysylltiad ffurfiol gan y trydydd sector mewn trafodaethau am wasanaethau lleol yn y rhan fwyaf o ardaloedd, ac er bod ymatebwyr yr arolwg yn gymharol bendant am faint blaenorol rôl y trydydd sector, y farn gyffredinol oedd fod profiad ar lawr gwlad cyn sefydlu'r prosiect yn gymysg iawn. Mae'r data cyfyngedig gan WCVA

yn awgrymu fod lefel yr incwm a enillwyd gan y trydydd sector o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn gyfyngedig iawn mewn gwirionedd, ac ymddengys mai ychydig o Gynghorau Gwirfoddol Sirol oedd â gwybodaeth systemig am ba gyrff trydydd sector oedd yn wirioneddol yn cymryd rhan mewn darparu gwasanaethau cyhoeddus (er ei bod yn dybiaeth gyffredin fod y sector yn rhannu'n gynyddol rhwng cyrff mwy, yn neilltuol mewn gwasanaethau plant a iechyd a gofal cymdeithasol sydd wedi paratoi'n dda i gystadlu â chyrff llai lle caiff ei gyfraniad lai o gydnabyddiaeth ac sy'n llawer llai galluog i symud o ddibyniaeth ar grantiau i amgylchedd mwy cystadleuol). Mae gwerthusiadau diweddar eraill yn awgrymu nad yw ymgysylltiad dinasyddion a gweithio gyda'r trydydd sector, er yn themâu pwysig mewn gweithio partneriaeth lleol, yn cael eu gweld fel y blaenoriaethau uchaf ar gyfer lywodraeth leol yn neilltuol;

- Yn ymarferol, caiff swyddogion Creu'r Cysylltiadau eu defnyddio mewn ffyrdd gwahanol iawn mewn gwahanol ardaloedd, gyda phenderfyniadau am eu gweithgareddau dydd i ddydd wedi'i seilio i raddau helaeth ar y cyd-destun y maent yn gweithredu ynddo. Mae'n amlwg fod gan rai lawer i'w ddysgu mewn cyfnod byr ac wedi'i chael yn anodd sicrhau rôl i'w hunain, ac mewn llawer o achosion manteisir arnynt i ymateb i anghenion penodol yn gysylltiedig (weithiau'n llac iawn) gyda'r agenda gwasanaethau cyhoeddus;
- Er ei bod yn anodd cyffredinoli, ymddengys fod ffocws cryf ar gymryd rhan mewn cyfarfodydd a lledaenu gwybodaeth am Fyrddau Gwasanaethau Lleol a gweithio partneriaeth arall, gyda llai o ffocws ar fewnbwn i ddylunio gwasanaeth (y gellid dadlau ei fod oherwydd nad yw llawer o Fyrddau Gwasanaethau Lleol hyd yma'n delio gyda materion ymarferol o'r fath). Mewn rhai achosion mae gwaith ar feithrin gallu cyrff trydydd sector i sicrhau ennill incwm o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn ffocws sylweddol i'r rôl, ond mewn eraill mae gan y Cyngor Gwirfoddol Sirol adnoddau eraill ar gyfer darparu'r math yma o weithgaredd ar y raddfa a gredant yn addas. Mae gwaith ar lais y dinesydd hefyd yn amrywio'n sylweddol, er yr ymddengys fod

cefnogi timau Byrddau Gwasanathau Lleol ar eu gwaith ymgysylltu yn swyddogaeth allweddol i rai swyddogion;

- Mae tensiwn cynhenid yn nyluniad y prosiect rhwng y Cynghorau Gwirfoddol Sirol fel cyflogwyr a rheolwyr llinell a'r WCVA fel rheolwr prosiect ac, yn ymarferol, daeth ymgais y tîm rheoli prosiect i sicrhau fod rôl swyddogion Creu'r Cysylltiadau yn adlewyrchu fframwaith Atebolrwydd yn seiliedig ar Ganlyniadau i wrthdaro gyda dymuniad dealladwy Cynghorau Gwirfoddol Sirol i ddefnyddio adnodd ychwanegol mewn ffordd sy'n ategu rolau oedd gan eu staff arall eisoes;
- Bu'r gwaith i ddatblygu Cynlluniau Gweithredu Unigol a chytuno ar gerdyn adrodd yn gymharol feichus ond, serch hynny, ni ymddengys fod y trefniadau presennol yn gweithio'n neilltuol o dda. Mewn rhai achosion, o leiaf, nid yw'r cynllun gweithredu yn arf ymarferol i lywio gwaith swyddogion Creu'r Cysylltiadau ac nid yw'r cardiau adrodd mewn gwirionedd yn rhoi adroddiad llawn o weithgareddau'r swyddogion na'r hyn a gyflawnant;
- Mae swyddogion Creu'r Cysylltiadau a chyfweleion eraill yn adrodd ystod o ganlyniadau ymarferol hyd yma, ac mae'r nifer fechan o ymatebwyr yr arolwg yn credu fod y swyddogion yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i gynyddu amlygrwydd a rôl y trydydd sector yng ngwaith y Byrddau Gwsanaethau Lleol a phartneriaethau a dyluniad a darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus. Yn ddiddorol, yn yr arolwg a hefyd y gwaith maes ar astudiaethau achos, roedd cyfweleion o'r sector cyhoeddus (yn aml mewn rolau eithaf gweithredol) yn fwy tebygol o fod yn gadarnhaol nag ymatebwyr o fewn Cynghorau Gwirfoddol Sirol;
- Mae'r rhan fwyaf o gyfweleion yn credu y caiff y targedau ffurfiol ar gyfer y proseict eu cyflawni (gydag eithriad posibl secondiadau) ond mae'r farn yn gymysg am i ba raddau y bydd y prosiect yn sicrhau''r canlyniadau a ragwelwyd yn y fframwaith Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau, yn neilltuol o fewn cyfnod y prosiect.

**ATODIAD 1: GWYBODAETH WAELODLIN GAN GYNGHORAU GWIRFODDOL SIROL**

| | CGS yn aelod o BGLl? | Cyrff Trydydd Sector eraill yn rhan o'r BGLl? | Proses dryloyw ar gyfer comisiynu? | Defnyddwyr a chymunedau wedi cymryd rhan wrth lunio'r CIS? | CIS wedi'i gymeradwy gan y trydydd sector/CGS? | Prosiect cymuned fentrus yn yr ardal? | Lleisiau Lleol (o ddechrau 2013) yn yr ardal | Cymunedau yn Cydweithio yn yr ardal | Prosiect broceriaid BGLl yn yr ardal? |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | Ydi | Na | Na | Do | Do | Oes | Oes | Na | Na |
| Gwynedd | Ydi | Na | Na | Do | Do | Oes | Oes | Na | Na |
| Conwy | Ydi | Oes | Na | Do | Do | Oes | Oes | Na | Na |
| Sir Ddinbych | Ydi | Na | Oes | Do | Do | Oes | Na | Na | Na |
| Ceredigion | Ydi | Na | Na | Do | Do | Oes | Na | Na | Oes |
| Sir Benfro | Ydi | Na | Oes | Do | Do | Oes | Oes | Oes | Oes |
| Sir Gaerfyrddin | Ydi | Na | Na | Do | Do | Oes | Oes | Oes | Oes |
| Abertawe | Ydi | Na | Oes | Do | Do | Oes | Oes | Oes | Na |
| C.nedd-Port Talbot | Ydi | Na | Na | Do | Do | Oes | Na | Oes | No |
| Pen-y-bont ar Ogwr | Ydi | Na | Na | Do | Do | Oes | Oes | Na | Na |
| Rhondda Cynon Taff | Ydi | Na | Na | Do | Do | Oes | Oes | Na | Na |
| Caerffili | Ydi | Na | Na | Do | Do | Oes | Oes | Na | Na |
| Merthyr Tudful | Ydi | Na | Na | Do | Do | Oes | Oes | Na | Na |
| Blaenau Gwent | Ydi | Na | Na | Do | Do | Oes | Oes | Na | Na |
| Torfaen | Ydi | Na | Na | Do | Do | Oes | Na | Na | Na |